

10. Staffio

Mae'r bennod hon yn egluro pwerau staffio a chyfrifoldebau cyfraith cyflogaeth y corff llywodraethu. Mae'r mwyafrif o'r pwerau a'r cyfrifoldebau hyn yn cael eu colli os yw cyllideb ddirprwyedig ysgol yn cael ei hatal.

Er gwybodaeth, mae gan y Bennod hon yr adrannau canlynol, yn ogystal â'r cefndir cyffredinol isod. Mae'r cefndir cyffredinol yn rhoi gorolwg cryno.

- A. Penodiadau;
- B. Cymwysterau Athrawon;
- C. Sefydlu Athrawon Newydd Gymhwysu;
- D. Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (CyngACC);
- E. Tâl ac Amodau Gwasanaeth;
- F. Rheolaeth Perfformiad;
- G. Disgyblu a Diswyddo Staff, Gweithdrefnau Achwyn a Gwahardd Staff; a
- H. Materion Staffio Cysylltiedig.

Cefndir

- VA
VC
F
FS
1. Yr ALI yw'r cyflogwr staff mewn ysgolion cymunedol, ysgolion gwirfoddol a reolir, ysgolion arbennig cymunedol ac ysgolion meithrin a gynhelir. Fel arfer, y corff llywodraethu sy'n cyflogi staff mewn ysgolion sefydledig, ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir ac ysgolion arbennig sefydledig. Yr eithriad yw staff a gyflogir i weithio mewn mwy nag un ysgol ac mae'n debygol mai'r ALI fyddai'r cyflogwr yn yr achos hwn.
 2. Mae gan y corff llywodraethu a'r pennaeth gyfrifoldebau gwahanol a neilltuol i ddethol a rheoli staff. Mae cyfrifoldebau helaeth y cyrff llywodraethu yn codi o baragraff 55 o Reoliadau Llywodraethu Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2005 a Rheoliadau Staffio Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2006, fel y'u diwygiwyd gan Reoliadau Staffio Ysgolion a Gynhelir (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2007, Rheoliadau Staffio Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2009, a Rheoliadau Staffio Ysgolion a Gynhelir (Cymru) (Diwygio Rhif 2) (Cymru) 2009. Mae'r bennod hon yn cyfeirio atynt i gyd fel 'Rheoliadau Staffio'. Mae gwahaniaethau yn y gyfraith yn dibynnu ar gategori'r ysgol.
 3. Mae gan y corff llywodraethu hefyd gyfrifoldebau o dan ddeddfwriaeth cyflogaeth ac mae'n rhaid iddo ystyried a chadw at rwymedigaethau a geir yn Y Ddogfen Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol a gyhoeddir yn flynyddol.

4. Mae'r Rheoliadau Staffio yn pennu swyddogaeth a chyfrifoldebau llywodraethwyr mewn perthynas â:

- phenodi penaethiaid a dirprwy bennaethiaid;
- penodi staff addysgu a staff cymorth;
- rheoleiddio ymddygiad a disgyblaeth staff;
- gwahardd a diswyddo staff;
- rôl y pennaeth mewn materion staffio;
- hawl yr ALI a'r pennaeth i gynghori'r corff llywodraethu am benodiadau a diswyddiadau;
- hawl awdurdod esgobaethol, lle y bo'n briodol, mewn ysgolion gwirfoddol neu sefydledig, i gynghori'r corff llywodraethu am benodiadau a diswyddiadau; a'r
- ddyletswydd ar lywodraethwyr i sicrhau bod y pennaeth yn cydymffurfio ac yn elwa ar ddarpariaethau'r Ddogfen Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol.

5. Mae'n rhaid i'r corff llywodraethu sicrhau bod staff digonol ac addas yn gyflogedig neu'n cael eu defnyddio i weithio yn yr ysgol, i ddarparu addysg sy'n briodol i oedran, doniau, galluoedd ac anghenion y disgyblion.

6. Y corff llywodraethu sy'n penderfynu strwythur staff yr ysgol, gan bennu nifer y swyddi athrawon a swyddi staff cymorth, eu graddfa a'u chyfrifoldebau. Pan fydd aelod o staff yn gadael, mae'n ofynnol i'r corff llywodraethu adolygu'r swydd a phenderfynu a ddylid ailbenodi ai peidio.

7. Gall y corff llywodraethu ddirprwyo swyddogaethau staffio penodol i'r pennaeth; neu i un neu fwy o lywodraethwyr; neu i un neu fwy o lywodraethwyr ynghyd â'r pennaeth. Os yw'r corff llywodraethu wedi gwneud dirprwyaeth o'r fath i un neu fwy o lywodraethwyr, gall y pennaeth fynychu a chynnig cyngor yn yr holl gyfarfodydd perthnasol, ac mae'n rhaid i'r llywodraethwr(wyr) a ddirprwywyd ystyried y cyfryw gyngor.

8. Y corff llywodraethu sy'n gyfrifol am reoleiddio ymddygiad a disgyblaeth mewn perthynas â staff yr ysgol ac unrhyw weithdrefnau sy'n rhoi cyfle i aelodau o staff geisio unioni unrhyw gwynion sy'n gysylltiedig â'u cyflogaeth. Mae'n rhaid i'r corff llywodraethu sefydlu pwyllgor disgyblu/diswyddo staff a phwyllgor apêl disgyblu/diswyddo staff. Am ragor o wybodaeth am sefydlu pwyllgorau a dirprwyo swyddogaethau darllenwch Bennod 4 dan y teitl Gweithdrefnau a Chyfarfodydd Cyrrff Llywodraethu.

9. Y corff llywodraethu sydd bob amser yn arwain y broses o benodi i'r swyddi pennaeth neu swyddi dirprwy bennaeth. Gall y corff llywodraethu benderfynu dirprwyo penodiadau staff eraill i'r pennaeth.

VA 10. Y corff llywodraethu sydd bob amser yn arwain y broses o benodi i'r swyddi pennaeth neu swyddi dirprwy bennaeth. Gall y corff llywodraethu benderfynu dirprwyo penodiadau staff eraill i'r pennaeth.

11. Mae gan Brif Swyddog Addysg yr ALI, neu ei gynrychiolydd, yr hawl i roi cyngor ac i fynychu'r cyfarfodydd canlynol. Mae'n rhaid i'r corff llywodraethu ystyried y cyngor hwn cyn gwneud penderfyniad:

- pob cyfarfod, yn cynnwys cyfweiliadau, a gynhelir gan y corff llywodraethu ac unrhyw banel dethol, sy'n ymwneud â phenodi pennaeth neu ddirprwy bennaeth, yn barhaol neu dros dro;
- pob cyfarfod, yn cynnwys cyfweiliadau, sy'n ymwneud â phenodi athrawon eraill;
- pob cyfarfod sy'n ymwneud ag unrhyw benderfyniad i ddiswyddo/disgyblu aelod o staff.

VA 12. Os yw'r ysgol yn ysgol sefydledig neu'n ysgol wirfoddol a gynorthwyir,
F mae gan y swyddog esgobaethol priodol yr un hawliau cyngori â'r rhai a amlinellir yn y paragraff uchod.

A. Penodiadau

1. Yng nghyfnod llunio'r canllaw hwn, mae gwaith ar droed i gynhyrchu cyfarwyddyd ar weithdrefnau recriwtio mwy diogel. Dylai llywodraethwyr sicrhau eu bod yn gweithredu o fewn y ddeddfwriaeth a'r cyfarwyddyd perthnasol wrth benodi staff.

Penodi Pennaeth neu Ddirprwy Bennaeth

2. Os yw swydd pennaeth neu swydd dirprwy bennaeth yn, neu am ddod yn wag, mae'n rhaid i'r corff llywodraethu roi gwybod i'r ALI yn ysgrifenedig cyn cychwyn ar y broses o benodi.

3. Yn ôl Rheoliad 33 o'r Rheoliadau Staffio, mae'n ofynnol i gorff llywodraethu ysgol wirfoddol a gynorthwyr, lle bo'r ymddiriedolwyr dan ddogfen ymddiriedolaeth sy'n ymwneud â'r ysgol hefyd yn ymddiriedolwyr o urdd grefyddol yr Eglwys Gatholig, roi gwybod yn ysgrifenedig am y swydd wag i'r Uchel Fam neu'r Uchel Dad.

4. Mae'n rhaid i'r corff llywodraethu hysbysebu swyddi gwag mewn cyhoeddiadau priodol a gyhoeddir yng Nghymru a Lloegr fel y gwêl yn briodol. Mae hyn yn cynnwys papurau newydd, cyfnodolion, cylchgronau neu drwy hysbysebion ar y we. Fodd bynnag, o dan y Rheoliadau Staffio, gall corff llywodraethu benderfynu hysbysebu swydd pennaeth neu ddirprwy bennaeth os oes un yn codi o dan yr amgylchiadau hyn:

- (i) mae'r swydd yn codi mewn ysgol ("ysgol newydd" a enwir mewn cynigion statudol o dan Ran II Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998, fel un y gall disgyblion fynychu ar ôl i'w hysgol gyfredol gau; a
- (ii) mae person a gyflogir yn yr ysgol newydd neu'r ysgol a fydd yn cau, yn amodol ar gynigion statudol, wedi mynegi yn ysgrifenedig i'r corff llywodraethu ei fod yn dymuno gwneud cais am y swydd honno.

5. Fodd bynnag, os oes cynigion statudol eraill a fydd yn dod i rym ar yr un adeg neu ar adegau tebyg, gan greu neu gyfuno ysgolion eraill a gynhelir gan yr un awdurdod lleol, gall corff llywodraethu nad oes ganddo ymgeiswyr cymwys ei hun ystyried ymgeiswyr (heb hysbysebu'n genedlaethol) sy'n gymwys am swyddi o'r fath mewn ysgolion sydd newydd eu sefydlu neu ysgolion sydd wedi'u cyfuno. Mae'n rhaid i'r ymgeiswyr hyn ysgrifennu i gorff llywodraethu yr ysgol newydd yn mynegi eu dymuniad i ymgeisio am y swydd honno. Os nad yw'r amgylchiadau a nodir yn y paragraff hwn yn gymwys, bydd corff llywodraethu yn gorfod hysbysebu mewn cyhoeddiadau sy'n ymddangos yng Nghymru a Lloegr.

6. Wrth benodi pob pennaeth a dirprwy bennaeth, mae'n rhaid i'r corff llywodraethu sefydlu panel dethol o dri i saith o bobl. Gall y panel dethol gynnwys unigolion nad ydynt yn llywodraethwyr, a gwaith y corff llywodraethu yw penderfynu a gaiff yr unigolion hynny bleidleisio. Mae'n rhaid i fwyafrif yr aelodau fod yn llywodraethwyr. Gall ysgolion gwirfoddol a gynorthwyr ddewis cynnwys y corff llywodraethu cyfan fel panel dethol wrth benodi pennaeth neu ddirprwy bennaeth.

7. Mae'n rhaid i'r llywodraethwyr sy'n rhan o'r panel dethol ac sy'n dethol ymgeiswyr ar gyfer cyfweiliad, hefyd fod yn rhan o'r panel cyfweld. Os yw llywodraethwr yn bresennol wrth lunio rhestr fer, ond yna'n methu â bod yn bresennol yn y cyfweiliad, ni all y corff llywodraethu ddethol dirprwy llywodraethwr ar gyfer y cyfweiliad. Os yw llywodraethwr yn ymwybodol ar ddechrau'r broses na fydd neu na all fod yn rhan o'r cyfan, dylai ddatgan hynny cyn i'r broses gychwyn, fel y gall rhywun arall gymryd ei le.

8. Mae'n rhaid i banel dethol, neu gorff llywodraethu, wneud y canlynol:

- dewis cadeirydd o blith aelodau'r panel. Ni chaiff yr unigolyn hwn fod yn gyflogedig yn yr ysgol nac yn ddisgybl. Gall y corff llywodraethu symud y cadeirydd o'r swydd hon i unrhyw banel dethol ar unrhyw adeg;
- dewis ymgeiswyr ar gyfer cyfweiliad (rhestr fer);
- rhoi gwybod i'r ALI yn ysgrifenedig fanylion yr ymgeiswyr a ddewiswyd i gael cyfweiliad (i benodiadau penaethiaid);
- cyfweld ymgeiswyr; ac
- argymhell i'r corff llywodraethu y dylid penodi un o'r bobl a gyfwelwyd.

9. Os yw'r ALI yn ysgrifennu i'r panel dethol am anaddasrwydd unrhyw ymgeisydd o fewn pedwar diwrnod ar ddeg o'r dyddiad y cafwyd gwybod pwy oedd yr ymgeiswyr a gyrhaeddodd y rhestr fer, mae'n rhaid i'r panel dethol ystyried safbwynt yr ALI. Os yw'r ymgeisydd yn cael cyfweiliad wedi'r cwbl ac yn cael ei argymhell ar gyfer y swydd gan banel y corff llywodraethu, mae'n rhaid i'r panel dethol ymateb i'r ALI yn ysgrifenedig a sicrhau bod gohebiaeth yr ALI ac ymateb y panel ar gael i'r corff llywodraethu.

10. Mae'n rhaid i'r panel dethol hysbysu'r corff llywodraethu o'r argymhellion er mwyn ei gymeradwyo. Os yw'r corff llywodraethu yn cefnogi argymhelliad y panel bydd:

VC
S

- yn achos ysgolion cymunedol, ysgolion gwirfoddol a reolir ac ysgolion arbennig cymunedol, yn argymhell i'r ALI benodi'r person hwnnw; neu

VA
F
FS

- yn achos ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir, ysgolion sefydledig ac ysgolion arbennig sefydledig, yn penodi'r person a argymhellwyd i'r swydd, yn amodol ar y person hwnnw'n bodloni holl ofynion cymhwyster staff perthnasol.

VC
S

11. O ran ysgolion cymunedol, ysgolion gwirfoddol a reolir ac ysgolion arbennig cymunedol, mae'n rhaid i'r ALI benodi ymgeisydd a argymhellir gan y panel os cymeradwyir yr argymhelliad gan y corff llywodraethu, oni bai nad yw'r ymgeisydd yn bodloni gofynion cymhwyster staff fel y disgrifir yn y paragraffau isod sy'n ymwneud â chymwysterau athrawon a Chyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (CyngACC).

12. Os nad yw'r panel dethol yn gwneud argymhelliad, neu os nad yw'r corff llywodraethu yn cymeradwyo argymhelliad, neu os yw'r ALI yn gwrthod penodi'r ymgeisydd a argymhellwyd, gall y corff llywodraethu ail-hysbysebu'r swydd.

VC
F 13. Mewn ysgolion sefydledig ac ysgolion gwirfoddol a reolir sydd â chymeriad crefyddol, gall y corff llywodraethu ystyried addasrwydd a gallu unrhyw ymgeisydd i gynnal a datblygu cymeriad crefyddol yr ysgol.

VA 14. Mewn ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir sydd â chymeriad crefyddol, gall y corff llywodraethu roi blaenoriaeth i unrhyw ymgeisydd sydd â daliadau crefyddol ac yn addoli'n unol ag athrawiaeth enwad crefyddol yr ysgol. Mewn ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir, lle bo'r ymddiriedolwyr yn ymddiriedolwyr o urdd grefyddol yr Eglwys Gatholig, gall y corff llywodraethu benodi ymgeisydd a gynigwyd gan yr Uchel Fam neu'r Uchel Dad Cyffredinol, yn bennaeth. Gellid gwneud hyn heb ddilyn y gweithdrefnau arferol ar gyfer penodi pennaeth, gan gynnwys sefydlu panel dethol. Ni all y corff llywodraethu benodi ymgeisydd nad yw'n bodloni'r gofynion cymhwyster.

15. Yn ôl y rheoliadau, gwaherddir pennaeth rhag cymryd rhan ym mhenodiad ei olynydd. Fodd bynnag, mae gan y pennaeth yr hawl i fynychu cyfarfodydd y corff llywodraethu i drafod penodiad dirprwy bennaeth ac i gynnig cyngor. Y corff llywodraethu sy'n penderfynu faint, os o gwbl, o swyddi dirprwy bennaethiaid ddylai'r ysgol eu cael.

16. Os na ellir llenwi swydd pennaeth neu swydd dirprwy bennaeth cyn y dyddiad y daw'r swydd yn wag, mae'n rhaid i'r corff llywodraethu:

- VC
S
- argymhell person dros dro ar gyfer y swydd i'r ALI mewn ysgol gymunedol, ysgol wirfoddol a reolir, ysgol arbennig gymunedol ac ysgol feithrin a gynhelir, neu
- F
VA
FS
- benodi unigolyn dros dro mewn ysgol sefydledig, ysgol wirfoddol a gynorthwyir neu ysgol arbennig sefydledig.

Penodi Staff Addysgu

17. Y corff llywodraethu sydd i benderfynu a ddylid llenwi swydd addysgu ai peidio pan ddônt yn wag neu er mwyn creu swydd newydd.

18. Rhaid i gorff llywodraethu pob ysgol a gynhelir lunio manyleb ar gyfer unrhyw swydd lawn amser neu ran-amser a'i hanfon i'r ALI. Mae'n rhaid hysbysebu'r swydd oni bai bod y corff llywodraethu yn penderfynu penodi athro a enwebir gan yr awdurdod lleol neu dderbyn athro sydd eisoes yn gweithio yn yr ysgol, sydd wedi'i argymhell i'r awdurdod lleol gan y corff llywodraethu. Rhaid i'r ALI, os mai dyna'r cyflogwr, benodi'r athro a ddetholir oni bai bod yr ymgeisydd yn methu â bodloni holl ofynion cymhwyster staff perthnasol. Y corff llywodraethu fydd yn gwneud y penodiad mewn ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir ac ysgolion Sefydledig. Mae gan yr ALI a'r pennaeth (os nad yw eisoes yn gysylltiedig â'r dethol) yr hawl i fynychu cyfarfodydd dethol a chynnig unrhyw gyngor y tybiant sy'n briodol. Os bydd y swydd wag,

neu os bydd yn debygol o fod yn benodiad dros dro o lai na phedwar mis, gall y corff llywodraethu gyflogi neu wneud trefniadau i gyflogi unrhyw unigolyn ar yr amod ei fod/bod yn bodloni'r holl ofynion cymhwyster staff perthnasol.

19. Ni all yr ALI fynnu symud athro i ysgol o un o'i ysgolion eraill, ond gall gyflwyno ymgeiswyr cymwys i'r corff llywodraethu eu hystyried ochr yn ochr ag ymgeiswyr eraill.

20. Gall y corff llywodraethu ddirprwyo'r gwaith o benodi staff i'r pennaeth, i un neu fwy o lywodraethwyr, neu i un neu fwy o lywodraethwyr a'r pennaeth ar y cyd.

Ystyriaethau Pellach wrth Benodi Athrawon mewn Ysgolion Enwadol

21. Mewn ysgol wirfoddol a gynorthwyir yr Eglwys yng Nghymru neu'r VA Eglwys Babyddol, mae gan yr awdurdod esgobaethol priodol yr un hawliau i fynychu cyfarfodydd a chynnig cyngor â'r ALI.

22. Mewn ysgol sefydledig neu wirfoddol a reolir yr Eglwys yng Nghymru VC neu'r Eglwys Babyddol gall y corff llywodraethu ymestyn yr hawliau cyngori F ar benodi a diswyddo athrawon i'r awdurdod esgobaethol priodol. Gall yr hawliau cyngori esgobaethol hyn fod yn berthnasol i bob athro neu rai ohonynt. Lle cytunwyd ar hawliau cyngori o'r fath, byddant yn berthnasol yn yr un ffordd â hawliau cyngori yr ALI.

VA 23. Mewn ysgol wirfoddol a gynorthwyir sydd â chymeriad crefyddol, mae gan y corff llywodraethu hawliau ychwanegol o ran cyflogi, penodi neu ddiswyddo athrawon. Wrth benodi, talu neu ddyrchafu athrawon, gall y corff llywodraethu ffafrio pobl:

- sydd o'r un safbwynt crefyddol â daliadau crefyddol yr ysgol;
- sy'n mynychu lle addoliad crefyddol yn unol â'r daliadau hynny; neu
- sy'n darparu, neu'n barod i ddarparu, addysg grefyddol yn unol â'r daliadau hynny.

Athrawon Neilltuedig mewn Ysgolion Gwirfoddol a Reolir a Sefydledig â Chymeriad Crefyddol

24. Mewn ysgolion gwirfoddol a reolir ac ysgolion sefydledig sydd â VC chymeriad crefyddol, mae'n rhaid i'r llywodraethwyr sefydledig fod yn fodlon F ynghylch addasrwydd athrawon neilltuedig a gallant roi cyfarwyddiadau ar eu diswyddo. Mae'r athrawon hyn yn darparu addysg grefyddol ac ni ddylid eu penodi oni bai bod y llywodraethwyr sefydledig yn fodlon eu bod yn addas ac yn gymwys i wneud hynny. Gall y llywodraethwyr sefydledig fynnu diswyddo rhywun fel 'athro neilltuedig' os yw'r athro wedi methu â darparu addysg grefyddol addas ac effeithlon.

25. Rhaid i ysgol o'r fath gynnwys athrawon neilltuedig os oes mwy na dau VC aelod staff yn addysgu. Ni ddylai nifer yr athrawon neilltuedig fod yn fwy nag F

un rhan o bump o'r athrawon addysgu (gan gynnwys y pennaeth), ond os nad yw nifer y staff addysgu yn lluosrif o bump, dylid ei drin fel petai y lluosrif uchaf nesaf o bump.

- VC
F 26. Gall y pennaeth a/neu'r dirprwy bennaeth fod yn athro neilltuedig.

Penodi Staff Cymorth

27. Os yw corff llywodraethu ysgol gymunedol, gwirfoddol a reolir, cymunedol arbennig neu ysgol feithrin a gynhelir yn nodi bod swydd staff cymorth (ac eithrio staff prydau bwyd ysgol) i'w llenwi, gall argymhell unigolyn i'r ALI. Rhaid i unrhyw argymhelliad o'r fath gynnwys manyleb swydd a gwybodaeth sy'n ymwneud â dyletswyddau, oriau gwaith, hyd y penodiad, gradd a thâl cydnabyddiaeth. Dylai'r radd fod yn un a ystyrir yn briodol gan y corff llywodraethu, ond hefyd rhaid iddi hefyd fod ar raddfa'r graddfeydd sy'n berthnasol mewn perthynas â chyflogaeth gyda'r ALI.

28. Rhaid i'r ALI benodi'r sawl sy'n cael ei ddethol gan y corff llywodraethu i lenwi'r swydd, oni bai bod yr unigolyn hwnnw yn methu â bodloni gofynion cymhwyster staff ar gyfer staff cymorth.

- VA
F 29. Mewn ysgol wirfoddol a gynorthwyr neu ysgol sefydledig, y corff llywodraethu sy'n gyfrifol am benodi staff cymorth, oni bai bod y corff llywodraethu wedi cytuno gyda'r ALI y gall yr ALI wneud hynny.

30. Y corff llywodraethu sydd i gytuno ar y broses o ddethol staff cymorth. Fel arfer byddai'r gwaith yn cael ei ddirprwyo i'r pennaeth, weithiau gyda chefnogaeth y llywodraethwyr. Os nad yw pennaeth yn ymarfer ei gyfrifoldeb dirprwyedig ar gyfer penodi staff cymorth, rhaid i'r corff llywodraethu ymgynghori â'r pennaeth cyn gwneud argymhelliad ac yn y naill achos a'r llall rhaid ymgynghori â'r ALI. Rhaid i bawb a benodir fodloni gofynion cymhwyster staff.

Staff Prydau Bwyd Ysgol

21. Os yw ALI yn penodi staff prydau bwyd ysgol mae'r ALI yn gyfrifol am benodi, disgyblu, gwahardd dros dro a diswyddo'r staff hyn.

32. Cyn gweithredu unrhyw swyddogaeth mewn perthynas â staff o'r fath, rhaid i'r ALI ymgynghori â chorff llywodraethu'r ysgol i'r graddau ag y mae'r awdurdod yn tybio'n angenrheidiol.

33. Mae swyddogaethau ALI sy'n ymwneud â chinio ysgol wedi'u trosglwyddo i gyrff llywodraethu ysgolion uwchradd. Y corff llywodraethu sydd i benderfynu sut mae'n darparu'r gwasanaeth. Gall fod trwy contract gwasanaeth gyda darparwr allanol. Y parti sy'n darparu'r gwasanaeth a/neu sy'n cyflogi'r staff sy'n gyfrifol am benodi, disgyblu, gwahardd dros dro a diswyddo'r staff hynny.

Gwirio Ymgeiswyr

34. Pan fo'r corff llywodraethu (neu'r pennaeth) wedi dewis penodi athro, rhaid i'r ALI wirio a yw'r unigolyn yn bodloni gofynion cymhwyster staff. Dylid cysylltu â Chyngor Addysgu Cyffredinol Cymru i wneud yr ymholiadau hyn. Mae manylion cyswllt y Cyngor yn Adran D o Bennod 10.
35. Mae Rheoliadau Addysg (Safonau Iechyd) (Cymru) 2004 yn amlinellu'r gweithgareddau addysgu y gall rhywun eu cyflawni os oes ganddo neu ganddi'r gallu iechyd neu gorfforol i wneud hynny. Maent hefyd yn amlinellu'r gweithdrefnau i'w dilyn lle mae'n ymddangos i gyflogwr yr unigolyn nad oes ganddo ef neu hi y gallu corfforol neu iechyd i gyflawni gweithgarwch.
36. Mae Rheoliadau 2004 yn berthnasol i unigolyn sy'n darparu addysg mewn ysgol, sefydliad addysg bellach neu rywle arall dan contract gyda'r ALI (neu gydag unigolyn sy'n gweithredu swyddogaethau ar ran yr ALI). Maent hefyd yn berthnasol os yw unigolyn yn gweithio dan contract i'r ALI neu gorff llywodraethu ysgol neu sefydliad addysg bellach, ac eithrio yn darparu addysg, ond mewn gwaith sy'n golygu bod yr unigolyn mewn cyswllt rheolaidd â phlant.
37. Mae'r rheoliadau safonau iechyd yn ymdrin â gweithgareddau penodol yn unig (fel yr amlinellir yn Rheoliad 5). Nid ydynt yn ei gwneud yn ofynnol i gynnal gwiriadau cyn cyflogi, nac i gyflogwyr fod yn fodlon bod naill ai'r ymgeiswyr neu'r gweithwyr cyflogedig â'r gallu iechyd a chorfforol i addysgu ond maent yn darparu mai dim ond pobl sydd â'r gallu iechyd a chorfforol i wneud hynny all gyflawni rhai gweithgareddau; ac yn amlinellu gweithdrefnau ar gyfer beth ddylai ddigwydd pan fo amheuaeth am eu gallu i wneud hynny yn codi.
38. Rhaid i'r ALI fod yn fodlon bod gan yr ymgeisydd y cymwysterau addysgu priodol, sef, yn achos athrawon bron yn ddiethriad y Statws Athro Cymwysedig (SAC).

Diogelu Plant a Chofrestru gyda'r Cynllun Fetio a Gwahardd

39. Cyflwynodd Deddf Diogelu Grwpiau Hyglwyf 2006 yr Awdurdod Diogelu Annibynnol sydd yn cyd-weinyddu'r Cynllun Fetio a Gwahardd newydd gyda'r Swyddfa Cofnodion Troseddol. Nod y cynllun yw gwella'r arferion ar gyfer fetio pobl sy'n dod i gysylltiad â phlant (ac oedolion sy'n agored i niwed). Mae'r cynllun Fetio a Gwahardd wedi bod ar waith ers 12 Hydref 2009.
40. Fel y'i diwygiwyd ym mis Mehefin 2010, mae'r Swyddfa Gartref wedi nodi ei bwriad i adolygu'r Cynllun Fetio a Gwahardd. Mae'r wybodaeth yn yr adran hon ynghylch gwirio ymgeiswyr felly'n amodol ar yr adolygiad hwnnw. Mae'r Ddeddf Diogelu Grwpiau Hyglwyf hefyd yn nodi yr ystyrir dysgu yn weithgarwch a reoleiddir. Mae hyn yn golygu y bydd yn ofynnol i unrhyw un sy'n gweithio yn y proffesiwn dysgu gofrestru gyda'r Awdurdod Diogelu Annibynnol, derbyn datgeliad uwch gan y Swyddfa Cofnodion Troseddol a chael eu monitro'n gyson gan yr Awdurdod Diogelu Annibynnol. Mae'r

gofyniad hwn yn cael ei ymestyn hefyd i aelodau staff nad ydynt yn dysgu mewn ysgolion.

41. Mae'r Rhestr 99 gyfredol, rhestr y Ddeddf Amddiffyn Plant a Diogelu Oedolion Agored i Niwed wedi cael eu disodli gan ddwy restr newydd; un ar gyfer y rhai sydd wedi'u gwahardd rhag gweithio gyda phlant a'r llall ar gyfer y rhai sydd wedi'u gwahardd rhag gweithio gydag oedolion agored i niwed. Gall unigolion gael eu rhoi ar y naill restr neu'r llall neu ar y ddwy. Yr Awdurdod Diogelu Annibynnol sy'n cadw'r rhestri newydd ac ers Ionawr 2009 maent wedi bod yn gwneud penderfyniadau, yn seiliedig ar wybodaeth a ddelir gan asiantaethau amrywiol, adrannau'r llywodraeth a'r Swyddfa Cofnodion Troseddol, i benderfynu pwy ddylid eu gosod ar y rhestri gwaharddiadau. Yr Ysgrifennydd Gwladol a arferai wneud y penderfyniadau hyn.

42. O fis Gorffennaf 2010, bydd cofrestriadau gyda'r Awdurdod Diogelu Annibynnol yn cael eu cyflwyno'n raddol dros gyfnod o bum mlynedd. O 1 Tachwedd 2010 mae'n orfodol i bob aelod o staff sy'n symud i swydd gyda darparwr newydd a staff a benodir o'r newydd gofrestru gyda'r Awdurdod Diogelu Annibynnol. Mae penodiadau newydd yn golygu unrhyw un sydd, yn ystod y tri mis cyn ei benodi, heb weithio mewn:

- ysgol yng Nghymru mewn swydd a oedd yn cynnwys cyswllt rheolaidd gyda phlant, neu unrhyw swydd y cawsant eu penodi iddi ers 29 Mawrth 2007;
- Coleg Addysg Bellach yng Nghymru mewn swydd a oedd yn cynnwys darparu addysg yn rheolaidd, gofalu am, hyfforddi, goruchwyllo neu fod yn gwbl gyfrifol am blant neu bobl ifanc dan 18 oed.

43. Bydd yn ofynnol i bob aelod o staff ymuno â'r cynllun erbyn 31 Gorffennaf 2015. Yn y pen draw, bydd yn ofynnol i aelodau'r gweithlu nad ydynt erioed wedi derbyn Datgeliad y Swyddfa Cofnodion Troseddol neu heb gael un ers nifer o flynyddoedd ac nad ydynt yn newid swyddi, ymuno â'r cynllun gyda chyfnod cyflwyno'n raddol o bum mlynedd hyd at fis Gorffennaf 2015.

44. Os yw unigolyn eisoes wedi cofrestru gyda'r Awdurdod Diogelu Annibynnol ac yn newid swydd, bydd yn gallu mynd â'i gofrestriad gydag ef. Gall cyflogwyr gofrestru diddordeb yn statws cofrestru unigolyn gyda'r Awdurdod er mwyn cael gwybodaeth reolaidd am newidiadau yn statws cofrestru unigolyn. (Mae gwybodaeth bellach, gan gynnwys y gofynion yn sgil y cynllun ar gyflogwyr a gweithwyr cyflogedig, ar gael ar wefan yr Awdurdod sef www.isa.gov.org.)

45. Gall datgeliadau gynnwys manylion unrhyw gollfarnau a rhybuddion y gall unigolyn fod wedi'u cael, yn ogystal â manylion sy'n dangos a ydynt wedi'u cynnwys ar y rhestr gwahardd neu wedi'u gwahardd rhag gweithio gyda phlant gan y Lllys. Mae canllawiau manwl ar wiriadau cyn cyflogi, gan gynnwys datgeliadau, yng *Nghanllawiau Llywodraeth Cynulliad Cymru ar Amddiffyn Plant: Gwahardd Pobl Anaddas rhag Gweithio gyda Phlant a Phobl*

Ifanc yn y Gwasanaeth Addysg. Os yw datgeliad rhywun yn datgelu gwybodaeth sy'n codi amheuon am addasrwydd unigolyn, hwyrach y bydd y corff llywodraethu am ystyried hyn wrth ddod i benderfyniad terfynol ynghylch recriwtio. Bydd angen i ALI hefyd wirio a yw athrawon wedi cofrestru gyda'r CyngACC ac a oes unrhyw gyfyngiadau mewn grym yn eu herbyn. Bydd y CyngACC yn cynghori ALI ac ysgolion am y ffordd y gallant gael gafael ar y gofrestr o athrawon a gwirio bod athrawon y cyflogant wedi cofrestru. Ni ddylai ALI benodi unigolyn sy'n methu bodloni unrhyw un o ofynion cymhwyster staff. I gael rhagor o wybodaeth am yr Awdurdod ewch i: www.isa-gov.org.uk.

46. Rhaid i staff sydd newydd eu penodi sydd wedi byw y tu allan i'r Deyrnas Unedig gael yr un gwiriadau â staff eraill mewn ysgolion. Mae hyn yn cynnwys datgeliad Manylach y Swyddfa Cofnodion Trosedd a gwirio'r rhestr gwahardd a ddelir gan yr Awdurdod Diogelu Annibynnol. Gan na fydd y gwiriadau hyn yn ddigonol o bosibl i sefydlu a yw rhywun yn addas i weithio gyda phlant, rhaid i ysgolion sicrhau eu bod yn cyflawni'r ystod gyfan o wiriadau eraill. Gellir cael mwy o wybodaeth am y wybodaeth cofnodion troseddol sydd ar gael gan heddluoedd a gwledydd tramor, trwy'r Swyddfa Cofnodion Troseddol yn www.crb.gov.uk.

Gwahaniaethu wrth Benodi ac yn Ystod Gwasanaeth

47. Rhaid barnu ymgeiswyr am swyddi mewn ysgolion ar sail eu haeddiant yn erbyn y gofynion gwrthrychol ar gyfer y swydd. Mae'n anghyfreithlon rhoi gwell cyfle i un ymgeisydd nag un arall. Gall honiadau bod ymgeiswyr wedi cael triniaeth ffafriol neu annheg, neu honiad tebyg, arwain at Dribiwnlys Cyflogaeth.

48. Dan Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 1995 (pan ysgrifennwyd y ddogfen hon, mae'r Ddeddf wedi'i dirymu gan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 ond nid yw'r dirymu hwnnw wedi dechrau eto), ni ddylai cyflogwyr (cyrff llywodraethu ac ALI) wahaniaethu yn erbyn darpar weithwyr cyflogedig neu weithwyr cyflogedig presennol sydd ag anabledau, neu rai sydd wedi cael anabledau yn y gorffennol. Rhaid i lywodraethwyr ac ALI wneud newidiadau rhesymol i'w trefniadau cyflogi neu safle os ydynt yn rhoi gweithiwr cyflogedig anabl dan anfantais o gymharu ag unigolyn nad yw'n anabl. O ran darpar weithwyr cyflogedig, rhaid iddynt ystyried a oes yna unrhyw "addasiad rhesymol" a fyddai'n goresgyn yr anfantais i ymgeisydd anabl cyn penderfynu ai hwnnw fyddai'r unigolyn gorau ar gyfer y swydd. Yr unig bryd y gellir cyfiawnhau triniaeth lai ffafriol yw os nad yw addasiad i alluogi unigolyn i wneud y swydd yn rhesymol, neu pe bai anabledd rhywun yn rhoi disgyblion neu staff mewn perygl (Mae Pennod 9, Cyfle Cyfartal a Llywodraethwyr Ysgol, yn ymdrin yn fwy manwl â chyfrifoldebau cyrff llywodraethu ar wahaniaethu).

B. Cymwysterau Athrawon

1. Fel arfer, mae disgwyl i athrawon sy'n gweithio mewn ysgolion a gynhelir ac ysgolion arbennig nas cynhelir yng Nghymru fod yn athrawon cymwysedig a meddu ar Statws Athro Cymwysedig (SAC). Mae'r gofynion i unigolion gael eu cydnabod fel athrawon cymwysedig wedi'u hamlinellu yn Rheoliadau Addysg (Cymwysterau Athrawon Ysgol) (Cymru) 2004, fel y'u diwygiwyd gan Reoliadau Addysg (Diwygiadau i Reoliadau ynghylch Cydnabod Cymwysterau Proffesiynol) (Cymru) 2007 a Rheoliadau Addysg (Cymwysterau Athrawon Ysgol) (Diwygio) (Cymru) 2008. Gellir cael SAC yng Nghymru naill ai trwy raglen hyfforddi israddedig neu ôl-raddedig a gynigir gan ddarparwr achrededig Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon (HCC), neu trwy ddilyn rhaglen hyfforddi athrawon ar sail cyflogaeth sy'n cael ei gweinyddu gan Lywodraeth y Cynulliad ar hyn o bryd.

2. Mae athrawon o Loegr sydd wedi ennill SAC yno yn cael eu cydnabod fel athrawon cymwysedig yng Nghymru ac nid oes angen unrhyw gadarnhad ychwanegol gan Lywodraeth y Cynulliad na Chyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (CyngACC). Mae ennill SAC yn Lloegr yn dibynnu ar basio profion sgiliau.

3. Gall CyngACC roi cyngor ar gymwysterau addysgu ac a oes gan athro SAC. (Gellir gwneud hyn trwy gysylltu â'r Tîm Cymwysterau a Chofrestru - gweler y paragraff canlynol am fanylion cyswllt). Gall athrawon sydd â chymhwyster proffesiynol perthnasol o'r Alban, Gogledd Iwerddon, Guernsey, neu Aelod-wladwriaethau yn yr Ardal Economaidd Ewropeaidd (aelod-wladwriaethau presennol yr Undeb Ewropeaidd ac, yn ogystal, Norwy, Gwlad yr Iâ a Liechtenstein) a'r Swistir gael eu cydnabod fel rhai â SAC heb ragor o hyfforddiant. Rhaid iddynt gael hysbysiad gan y CyngACC bod ganddynt SAC. Gallant wneud cais am hyn trwy gysylltu â Thîm Cymwysterau a Chofrestru'r CyngACC yn Nhŷ Southgate, Wood Street, Caerdydd, CF10 1EW - ffôn 029 2055 0350 neu e-bostio registration@gtcw.org.uk. Ni fydd gan bawb sydd â rhif cyfeirnod addysgu o reidrwydd SAC, ac ni fyddant chwaith o reidrwydd yn gymwys i'w gael heb ragor o hyfforddiant.

Athrawon heb SAC

4. Gall sawl categori o bobl, ar wahân i athrawon sydd â SAC, gyflawni 'gwaith penodedig' (y ffordd y mae'r gyfraith yn disgrifio gweithgarwch addysgu arferol) mewn ysgolion a gynhelir neu ysgolion arbennig nas cynhelir yng Nghymru, dan ddarpariaethau Rheoliadau Addysg (Gwaith Penodedig a Chofrestru) (Cymru) 2004 ("Rheoliadau Gwaith Penodedig"). Maent wedi'u rhestru yn y Rheoliadau Gwaith Penodedig fel pobl nad ydynt yn athrawon cymwysedig ond a all gyflawni 'gwaith penodedig'. Dyma'r prif categorïau:

- **Hyfforddwyr â chymwysterau arbennig neu brofiad arbennig:** Gall ysgolion gyflogi athrawon heb SAC fel hyfforddwyr os oes ganddynt y cymwysterau arbennig neu'r profiad arbennig sydd ei angen ar gyfer y swydd, a lle nad oes athro cymwysedig addas, athro graddedig, athro cofrestredig neu athro ar y cynllun hyfforddi

athrawon ar sail cyflogaeth ar gael i'w benodi neu i roi hyfforddiant. Gallant ond gael eu cyflogi am y cyfnod lle nad oes athrawon cymwysedig addas, athrawon graddedig, athrawon cofrestredig neu athrawon ar y cynllun hyfforddi athrawon ar sail cyflogaeth ar gael i'w penodi neu i roi hyfforddiant. Nid yw'r cyfyngiad hwn ar hyd cyflogaeth yn berthnasol yn achos unrhyw un a benodwyd cyn 8 Ebrill 1982 os oedd y penodiad am gyfnod penodol, os, a chyhyd â, nad yw'r cyfnod wedi dod i ben; neu os oedd y penodiad am gyfnod amhenodol, os na fynegwyd fel arall ei fod dros dro yn unig.

- **Athrawon a Hyfforddwyd Dramor:** Gall rhywun sydd wedi cwblhau rhaglen o hyfforddiant proffesiynol ar gyfer athrawon yn llwyddiannus mewn gwlad y tu allan i'r Ardal Economaidd Ewropeaidd neu'r Swistir, ac sy'n cael ei chydabod fel rhaglen hyfforddi gan yr awdurdod cymwys yn y wlad honno, weithio fel athro yng Nghymru am ddwy flynedd. Os yw athro a hyfforddwyd dramor yn dymuno parhau i weithio mewn ysgolion a gynhelir am fwy na dwy flynedd rhaid iddynt ennill SAC trwy lwybr cymeradwy priodol megis y Rhaglen Athrawon Graddedig. Mae'r cyfnod dwy flynedd yn rhedeg yn barhaus o'r diwrnod cyntaf y cyflogir yr unigolyn fel athro, waeth a yw'r athro wedi'i gyflogi fel athro am y cyfnod dwy flynedd yn llawn.
- **Unigolion sy'n dilyn hyfforddiant at ddibenion y cynllun hyfforddi athrawon ar sail cyflogaeth:** Gall rhywun sydd wedi cael awdurdod i ddilyn hyfforddiant at ddibenion y cynllun hyfforddi athrawon ar sail cyflogaeth, er enghraifft ar y Rhaglen Athrawon Graddedig, gael ei gyflogi fel athro mewn ysgol hyd nes y bydd wedi cwblhau'r hyfforddiant yn llwyddiannus neu wedi rhoi'r gorau iddo.
- **Pobl eraill, nad ydynt mewn categorïau penodol:** Mae penaethiaid hefyd yn penodi athrawon eraill heb SAC, ar wahân i'r bobl yn y categorïau penodol a restrir yn y Rheoliadau Gwaith Penodedig, i gyflawni 'gwaith penodedig'. Fel arfer, ond nid yn ddieithriad, Cynorthwywyr Addysgu a Chynorthwywyr Addysgu Lefel Uwch yw'r rhain. Nid oes unrhyw derfyn ar yr amser y gallant addysgu. Fodd bynnag:
 - gallant ond wneud hynny i gynorthwyo neu gefnogi gwaith athrawon cymwysedig neu 'athrawon a enwebwyd' yn yr ysgol;
 - gallant ond wneud hynny o dan gyfarwyddyd a goruchwyliaeth athro cymwysedig neu 'athro a enwebwyd' yn yr ysgol; a
 - rhaid i'r pennaeth fod yn fodlon bod ganddynt y sgiliau, y cymwysterau a'r profiad sydd eu hangen i gyflawni 'gwaith penodedig'.

5. 'Athrawon a enwebwyd' yw athrawon heb SAC ond sydd yn y categorïau penodol a restrir yn y Rheoliadau Gwaith Penodedig (megis

hyfforddwyr neu Athrawon a Hyfforddwyd Dramor) a enwebwyd gan y pennaeth fel athro a all roi cyfarwyddyd a goruchwyliaeth i athro yn y categori 'pobl eraill' a chael cymorth ganddo.

6. Nid oes gan athrawon heb SAC ond sydd yn y categorïau penodol a restrir yn y Rheoliadau Gwaith Penodedig yr hawl i addysgu dan y categori 'pobl eraill' (felly mae Athro a Hyfforddwyd Dramor, er enghraifft, wedi'i gyfyngu i addysgu am ddwy flynedd gan y categori Athrawon a Hyfforddwyd Dramor ac ni all weithio dan ddarpariaethau'r categori 'pobl eraill').

Athrawon Plant a Phobl Ifanc â Nam ar y Synhwyrâu

7. Dan Reoliadau Addysg (Cymwysterau Athrawon a Safonau Iechyd) (Cymru) 1999 (fel y'u diwygiwyd), os yw athro wedi'i gyflogi mewn ysgol at ddibenion addysgu dosbarth o blant â nam ar eu clyw, â nam ar eu golwg neu â nam ar eu clyw a'u golwg (amlynhwyrâidd), yn ogystal â bod yn athro cymwysedig mae'n ofynnol iddo ef neu hi feddu ar Gymhwyster Gorfodol ychwanegol fel y'i cymeradwyir gan Lywodraeth y Cynulliad.

C. Sefydlu Athrawon Newydd Gymhwys (ANGau)

1. Mae'r gofyniad i Athrawon Newydd Gymhwys (ANGau) yng Nghymru gwblhau cyfnod sefydlu statudol wedi'i amlinellu yn Rheoliadau Addysg (Trefniadau Ymsefydlu ar gyfer Athrawon Ysgol) (Cymru) 2005. Mae Cylchlythyr Cyfarwyddyd 15/2008 - Llawlyfr Sefydlu a Datblygiad Proffesiynol Cynnar ar gyfer Athrawon sydd newydd Gymhwys yng Nghymru (a ddiwygiwyd ym mis Mehefin 2008) yn crynhoi'r trefniadau sefydlu statudol.
2. Rhaid i athrawon sy'n ennill SAC ar ôl 1 Ebrill 2003 gwblhau cyfnod sefydlu o dri thymor ysgol (neu gyfwerth) yn llwyddiannus er mwyn parhau'n gymwys i'w cyflogi fel athrawon mewn ysgolion a gynhelir neu ysgolion arbennig nas cynhelir yng Nghymru.
3. Yn amodol ar restr o eithriadau penodol, ni ddylai unrhyw un sydd wedi ennill SAC ar ôl 1 Ebrill 2003 gael ei gyflogi mewn ysgol a gynhelir neu ysgol arbennig nas cynhelir yng Nghymru oni bai ei fod wedi cwblhau'n llwyddiannus neu'n gweithio tuag at gwblhau cyfnod sefydlu statudol. Dylai unrhyw athro newydd gymhwys (ANG) sy'n gweithio mewn ysgol a gynhelir neu ysgol arbennig nas cynhelir am o leiaf dymor llawn neu gyfnod cyfwerth (h.y. dau hanner tymor yn olynol; neu gyfnod o gyflogaeth y mae'r Corff Priodol (yr ALI fel arfer) yn ystyried yn briodol (er yr argymhellir mai dim ond cyfnodau o tua deg wythnos yn olynol (heb gyfrif y gwyliau) ddylai gyfrif fel un tymor at ddibenion sefydlu statudol) gael rhaglen sefydlu a dylid gwneud trefniadau priodol ar gyfer hyn. Gall ANGau hefyd gwblhau eu sefydlu trwy gyfnodau cyflogaeth fel athrawon cyflenwi, ar yr amod ei bod yn hysbys o'r cychwyn cyntaf y bydd y gyflogaeth yn cyfrif tuag at eu sefydlu statudol.
4. Os cynigir cyfnod cyflogaeth o un tymor ysgol (neu gyfwerth) neu fwy i athro y mae sefydlu'n berthnasol iddo, ac sydd heb gwblhau ei gyfnod sefydlu hyd yma, mae'r cyfnod cyflogaeth hwnnw yn cyfrif tuag at sefydlu a rhaid gwneud trefniadau priodol ar gyfer hyn. Rhaid i ANGau gael gostyngiad o 10 y cant yn eu hamserlen fel y gellir cynnal eu rhaglen sefydlu (NODER mae hyn yn ychwanegol i amser cynllunio, paratoi ac asesu. Dan delerau'r Ddogfen Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol, mae dyletswyddau proffesiynol penaethiaid yn cynnwys sicrhau bod athrawon sydd wrthi'n cyflawni eu cyfnodau sefydlu yn cael gostyngiad o 10 y cant yn eu hamserlen o'u cymharu ag athro ystafell ddosbarth yn yr ysgol nad yw'n derbyn lwfans rheoli na thaliad cyfrifoldeb addysgu a dysgu).
5. Wrth benodi ANGau, dylai'r corff llywodraethu ystyried cyfrifoldeb yr ysgol i ddarparu'r gwaith monitro, cefnogi ac asesu angenrheidiol ar gyfer y cyfnod sefydlu. Dylid ystyried penodi tiwtor sefydlu ANGau yn ofalus ac yn enwedig sicrhau bod gan y tiwtor yr amser a'r sgiliau i gyflawni ei swyddogaeth yn effeithiol.

6. Mae cyllid ar gyfer sefydlu ANGau mewn ysgolion a gynhelir ac ysgolion arbennig nas cynhelir yn cael ei weinyddu gan y CyngACC. Hefyd, dylai ysgolion annibynnol a sefydliadau addysg bellach sy'n dewis cynnig cyfnod sefydlu i ANGau sicrhau bod adnoddau priodol yn cael eu defnyddio.
7. Ar ddiwedd y cyfnod sefydlu, y corff priodol (h.y. yr ALI) sy'n gyfrifol am benderfynu a yw ANG wedi bodloni'r Safon Diwedd Sefydlu ar sail argymhelliad y pennaeth.
8. Ceir gofynion statudol sy'n golygu y gall athro sydd wedi methu â chwblhau ei gyfnod sefydlu yn llwyddiannus gyflwyno apêl yn Rheoliadau Addysg (Trefniadau Ymsefydlu ar gyfer Athrawon Ysgol) (Cymru) 2005 ("Rheoliadau Trefniadau Ymsefydlu"). Os yw ANG wedi methu â chwblhau ei sefydlu yn foddhaol, neu wedi cael estyniad i'w gyfnod sefydlu, mae'r Rheoliadau Trefniadau Ymsefydlu yn darparu mai CyngACC yw'r corff a fydd yn gwrando ar apelau o'r fath. Mae'r Rheoliadau Trefniadau Ymsefydlu yn darparu y gall Pwyllgor Apêl ganiatáu apêl, gwrthod apêl neu ymestyn cyfnod sefydlu'r sawl sy'n apelio am gyfnod fel y gwêl yn dda. Mae'r Pwyllgor Apelau yn ystyried pob apêl mewn perthynas â'r holl dystiolaeth, gan weithredu mewn modd annibynnol a diduedd, gan fod yn wrthrychol a heb ffafrio'r naill barti na'r llall. Mae penderfyniad y Pwyllgor Apelau yn derfynol, er y gall y sawl sy'n apelio ofyn am adolygiad barnwrol o'i achos.
9. Mae athrawon a hyfforddwyd mewn Aelod-wladwriaethau yn yr Ardal Economaidd Ewropeaidd neu'r Swistir, y cydnabyddir eu cymwysterau addysgu yng Nghymru wedi'u heithrio o gwblhau cyfnod sefydlu.
10. Mae unrhyw athro sydd wedi cwblhau ei gyfnod sefydlu yn llwyddiannus yn Lloegr, neu sydd wedi'i eithrio o gwblhau Cyfnod Sefydlu yn Lloegr dan drefniadau Lloegr, yn cael ei eithrio o'r gofyniad i gwblhau cyfnod sefydlu yng Nghymru.
11. Mae unrhyw athro sydd wedi cwblhau ei gyfnod sefydlu yn llwyddiannus yn yr Alban yn cael ei eithrio o'r gofyniad i gwblhau cyfnod sefydlu yn ysgolion Cymru.
12. Mae gan Ogledd Iwerddon gam sefydlu yn eu haddysg athrawon, felly mae athrawon sydd wedi cwblhau'r cam hwnnw yn cael eu heithrio o'r gofyniad i gwblhau cyfnod sefydlu yn ysgolion Cymru.

D. Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (CyngACC)

1. Dan adran 134 o Ddeddf Addysg 2002 a Rheoliad 7 o Reoliadau Addysg (Gwaith Penodedig a Chofrestru) (Cymru) 2004 **rhaid** i bob athro cymwysedig sy'n cyflawni "gwaith penodedig" athro mewn ysgol a gynhelir **gofrestru** gyda Chyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (CyngACC).

Cofrestru gyda CyngACC

2. Wrth benodi, gan gynnwys penodi athrawon cyflenwi ac athrawon newydd gymhwyso, rhaid i ALI ac ysgolion sicrhau bod athro sydd â Statws Athro Cymwysedig (SAC) wedi cofrestru gyda CyngACC. Os yw ysgolion am benodi athrawon sydd â SAC sydd heb gofrestru hyd yma, dylent ddweud wrthynt fod yn rhaid iddynt wneud cais i gofrestru cyn dechrau ar eu swyddi. Bydd CyngACC yn cynghori ALI ac ysgolion sut y gallant gael gafael ar y gofrestr o athrawon a gwirio bod yr athrawon y maent yn eu cyflogi, neu'n bwriadu eu cyflogi, wedi cofrestru.

Ffi Cofrestru

3. Ers mis Ebrill 2002 mae CyngACC wedi codi ffi gofrestru flynyddol i gynorthwyo ei weithgareddau craidd. Yn unol â Rheoliadau Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (Ffioedd) 2002, bydd y cyngor yn cyflwyno hysbysiad tâl blynyddol i gyflogwyr yn ei gwneud yn ofynnol iddynt ddidynnu'r ffi o gyflog athro a'i hanfon i'r Cyngor. Bydd angen i athrawon cyflenwi wneud eu trefniadau eu hunain gyda'r Cyngor ar gyfer talu'r ffi gofrestru.

4. £45 yw'r ffi gofrestru ar hyn o bryd a bydd yn parhau ar y lefel hon tan 31 Mawrth 2011. Fel yr amlinellir yn Nogfen Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol mae athrawon yn derbyn lwfans o £33 tuag at gost eu ffi gofrestru.

Rôl y CyngACC a'i Bwerau Disgyblu

5. O 1 Mehefin 2001, CyngACC sydd wedi bod yn gyfrifol am ymchwilio i a gwrando ar achosion yn erbyn athro cofrestredig lle honnir bod athro yn euog o ymddygiad proffesiynol annerbyniol, anghymwyster proffesiynol difrifol neu os yw athro wedi cael colfarn (unrhyw bryd) am drosedd berthnasol. Mae gan CyngACC y pŵer hwn, ac eithrio os yw'r achos yn ymwneud â diogelwch a lles plant. Ymdriniwyd ag achosion o'r fath gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Blant, Ysgolion a Theuluoedd tan 20 Ionawr 2009, ond ers hynny yr Awdurdod Diogelu Annibynnol sydd wedi bod yn ymdrin â'r achosion hyn.

6. Mae manylion pwerau a gweithdrefnau disgyblu CyngACC ar gael gan dîm safonau proffesiynol y Cyngor neu ar y wefan: www.qtcw.org.uk. Bydd canlyniad trafodion disgyblu'r CyngACC yn pennu a yw'r athro'n gymwys i barhau ar Gofrestr y Cyngor. Mae gan CyngACC y pŵer i wneud gorchmynion disgyblu yn erbyn athrawon cofrestredig a all amrywio o gerydd i ddileu enw athro o gofrestr CyngACC.

7. Nid yw swyddogaeth CyngACC yn disodli pwerau disgyblu cyrff llywodraethwyr ac ALL mewn perthynas â'r staff y maent yn eu cyflogi. Bydd swyddogaeth CyngACC ond yn dechrau pan fydd ysgol wedi rhoi'r gorau i ddefnyddio gwasanaethau athro cofrestredig, waeth a yw gwasanaethau'r unigolyn yn cael eu dwyn i ben neu a yw ef neu hi yn gadael yn wirfoddol.

Adrodd ar Achosion i CyngACC

8. Dylid parhau i gyfeirio at CyngACC achosion sy'n ymwneud â chamymddwyn, collfarn am drosedd berthnasol o fewn ystyr paragraff 8 Atodlen 2 Deddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998, neu anghymwyster athro cofrestredig nad yw'n ymwneud â materion diogelu plant. Fodd bynnag, o **12 Hydref 2009**, mae'n ofynnol i gyflogwyr adrodd ar achosion o gamymddwyn sy'n ymwneud â diogelwch a lles plant yn uniongyrchol i'r Awdurdod Diogelu Annibyynnol (ISA).

9. Cyhoeddwyd canllawiau diwygiedig gan Lywodraeth y Cynulliad yn egluro'r newidiadau yn fanylach ar 25 Medi 2009 yng Nghylchlythyr 18/2009 '*Adrodd ar Achosion o Gamymddwyn neu Anghymhwysra Proffesiynol yn y Gwasanaeth Addysg*'. Mae'r Cylchlythyr hwn yn disodli Cylchlythyr 33/2005 Cynulliad Cenedlaethol Cymru '*Adrodd ar Achosion o Gamymddwyn neu Anghymhwysra Proffesiynol yn y Gwasanaeth Addysg*'

Anghymwyster

10. Dylid adrodd ar achosion o ***anghymwyster proffesiynol*** mewn perthynas ag athrawon sydd wedi cofrestru gyda'r Cyngor yn uniongyrchol i CyngACC pan mae ***cyflogwr***:

- wedi rhoi'r gorau i ddefnyddio gwasanaethau unigolyn sy'n athro cofrestredig ar sail sy'n ymwneud â'i anghymwyster proffesiynol; neu
- o bosibl wedi rhoi'r gorau i ddefnyddio gwasanaethau unigolyn sy'n athro cofrestredig pe na bai wedi rhoi'r gorau i ddarparu'r gwasanaethau hynny.

11. Rhaid rhoi adroddiad hefyd i CyngACC os yw ***asiant***:

- wedi terfynu trefniadau ar gyfer gweithiwr sy'n athro cofrestredig i gyflawni gwaith ar sail sy'n ymwneud â'i anghymwyster proffesiynol;
- o bosibl wedi terfynu trefniadau ar sail sy'n ymwneud â'i anghymwyster proffesiynol pe na bai'r gweithiwr wedi rhoi terfyn arnynt; neu
- o bosibl wedi peidio â gwneud trefniadau newydd ar gyfer gweithiwr sy'n athro cofrestredig ar sail sy'n ymwneud â'i anghymwyster proffesiynol pe na bai'r gweithiwr wedi rhoi'r gorau i fod ar gael i weithio.

Cytundebau Cyfaddawdu

12. Os yw cyflogwr yn dod i gytundeb cyfaddawdu ynghylch terfynu cyflogaeth athro, nid yw hyn yn effeithio ar ddyletswydd statudol y cyflogwr i adrodd ar yr achos i Awdurdod Diogelu Annibynnol neu CyngACC. Dylid gwneud hyn yn glir i'r athro. Ni ddylid defnyddio cytundebau cyfaddawdu mewn achosion lle mae cyflogaeth wedi dod i ben o ganlyniad i honiadau bod aelod staff wedi:

- ymddwyn mewn ffordd a allai fod wedi niweidio plentyn;
- wedi cyflawni trosedd yn erbyn plentyn o bosibl; neu
- wedi ymddwyn mewn ffordd tuag at blentyn sy'n dangos ei fod yn anaddas i weithio gyda phlant.

Manylion cyswllt ar gyfer Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru

13. Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru
4^{ydd} Llawr, Tŷ Southgate
Wood Street
Caerdydd
CF10 1EW

Ffôn: 029 2053 0350
E-bost: information@gtcw.org.uk
www.gtcw.org.uk

E. Cyflog ac Amodau Gwasanaeth

1. Mae cyflog ac amodau athrawon a phenaethiaid yn cael eu pennu gan y gyfraith ac yn cael eu cynnwys yn y Ddogfen Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol. Mae'n ofynnol i Gyrrff Llywodraethu sicrhau bod y pennaeth yn cydymffurfio â'r dyletswyddau, ac yn derbyn y manteision, o dan ddarpariaethau statudol y Ddogfen. Er nad yw'r pŵer i bennu cyflog ac amodau athrawon wedi'i ddatganoli, mae Deddf Prentisiaethau, Sgiliau, Plant a Dysgu 2009 yn rhoi'r pŵer i Lywodraeth y Cynulliad, o fis Ionawr 2010, roi cyfarwyddyd i awdurdodau lleol i gyflwyno rhybuddion i ysgolion os oes tystiolaeth o beidio â chydymffurfio.

2. Mae'r strwythur cyflog yn cynnwys cyfle ar gyfer cynnydd blynyddol i athrawon ystafell ddosbarth (ac eithrio'r rhai sydd wedi mynd y tu hwnt i'r trothwy, lle mae cynnydd pellach yn seiliedig ar berfformiad), yn ogystal â chyfle i gyrrff llywodraethu weithredu fel y gwelant yn dda wrth bennu cyflog athrawon ystafell ddosbarth, athrawon sgiliau uwch a'r grŵp arweinyddiaeth. Rhaid i gyrrff llywodraethu adolygu cyflog pob athro yn flynyddol. Wrth wneud hynny rhaid iddynt gadw o fewn y darpariaethau statudol a amlinellir yn y Ddogfen Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol. Rhaid bod gan gyrrff llywodraethu bolisi cyflog clir wedi'i drafod gyda'r staff.

3. Pan benodir staff cymorth newydd, mae'r corff llywodraethu yn penderfynu ar ba bwynt ar y raddfa y dylid eu penodi.

4. Dan Ddeddf Cyflog Cyfartal 1970 mae hawl gan fenywod i gael yr un cyflog â dynion os ydynt wedi'u cyflogi i wneud yr un gwaith neu waith sydd o'r un gwerth. Rhaid i gyrrff llywodraethu sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r gofyniad hwn wrth benderfynu ar gyflog.

5. Mae pob athro sydd wedi'i gyflogi mewn ysgol gymunedol yn ddarostyngedig i amodau statudol sy'n ymwneud â'i ddyletswyddau proffesiynol a'i amser gweithio sydd wedi'u hamlinellu yn y Ddogfen Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol flynyddol. Mae'r rhain yn gyfystyr â thelerau ac amodau contract cyflogaeth.

6. Yn ogystal â'r amodau statudol hyn, mae athrawon yn ddarostyngedig i amodau statudol eraill sydd wedi'u pennu yn eu contractau cyflogaeth, megis y rhai sy'n darparu ar gyfer tâl salwch ac absenoldeb mamolaeth.

7. Yn olaf, gellir cynnwys telerau rhai cytundebau lleol neu genedlaethol yn eu contractau cyflogaeth, naill ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol trwy'r Ddogfen Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol.

Llwyth Gwaith

8. Mae'r newidiadau a amlinellir yn *Codi Safonau a Mynd i'r Afael â Llwyth Gwaith: Cytundeb Cenedlaethol* (2003) bellach wedi'u cynnwys yng nghontractau cyflogaeth athrawon a phenaethiaid trwy'r Ddogfen Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol ac felly dylent bellach gael eu gweithredu'n llawn

mewn ysgolion. Darperir crynodeb o newidiadau isod ac mae canllawiau pellach wedi'u cynnwys yn y Ddogfen Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol.

9. Ni ellir gofyn bellach i athrawon a phenaethiaid gyflawni tasgau gweinyddol a chlerigol fel mater o drefn - tasgau nad ydynt yn gofyn iddynt ddefnyddio'u sgiliau a barn broffesiynol, ac ni ellir gofyn iddynt chwaith arolygu arholiadau allanol. Dylid trosglwyddo'r gweithgareddau hyn i staff cymorth cymwys ac sydd wedi'u hyfforddi'n briodol.
10. O fis Medi 2009, dim ond ar achlysuron prin y gall athrawon a phenaethiaid gyflenwi dros gydweithwyr sy'n absennol a dim ond dan amgylchiadau na ellir rhagweld y cânt wneud hynny. Dylai ysgolion fod â threfniadau wrth gefn cadarn ar waith sy'n defnyddio dulliau amgen o ddarparu cymorth wrth gefn.
11. Mae athrawon a phenaethiaid yn gwbl sicr o gael o leiaf 10 y cant o'u hamser addysgu sydd wedi'i amserlenni ar gyfer cynllunio, paratoi ac asesu ac mae'n rhaid cofnodi hyn ar amserlen yr ysgol.
12. Dylai pob athro a phennaeth fwynhau cydbwysedd rhesymol rhwng bywyd a gwaith. Mae'n rhaid i benaethiaid ystyried dymuniad athrawon i sicrhau cydbwysedd boddhaol rhwng bywyd a gwaith wrth ddyrannu dyletswyddau iddynt. Yn yr un modd, mae dyletswydd ar lywodraethwyr, sydd wedi'i chynnwys yn y Rheoliadau Staffio, i ystyried cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith o ran penaethiaid.
13. Mae gan athrawon â chyfrifoldebau arwain neu reoli hawl, cyn belled ag sy'n rhesymol ymarferol, i amser rhesymol i gyflawni'r dyletswyddau hynny.
14. Mae hawl gan benaethiaid hefyd i gael amser dynodedig i gyflawni eu cyfrifoldebau arwain a rheoli. Dylai cyrff llywodraethu sicrhau bod amser priodol yn cael ei ddarparu.

F. Rheoli Perfformiad

1. Mae trefniadau presennol ar gyfer rheoli perfformiad athrawon yng Nghymru wedi'u cynnwys yn Rheoliadau Gwerthuso Athrawon Ysgol (Cymru) 2002 (fel y'u diwygiwyd) a Rheoliadau Llywodraethu Ysgolion (Cylch Gwaith) (Cymru) 2000 fel y'u diwygiwyd gan Reoliadau Llywodraethu Ysgolion (Cylch Gwaith) (Cymru) (Diwygio) 2002. Mae'r rheoliadau'n mynnu bod corff llywodraethu ysgol yn sefydlu polisi rheoli perfformiad a sicrhau bod perfformiad pob athro yn yr ysgol yn cael ei adolygu bob blwyddyn.

2. Mae canllawiau ar y rheoliadau wedi'u hamlinellu mewn pedair dogfen sef:

- Arweiniad Rheoli Perfformiad 1 – Egwyddorion a Gweithdrefnau sy'n disgrifio'r system;
- Arweiniad Rheoli Perfformiad 2 – Polisiâu Rheoli Perfformiad Ysgol sy'n cynnwys polisi enghreifftiol;
- Arweiniad Rheoli Perfformiad 3 – Arweiniad i Lywodraethwyr;
- Arweiniad Rheoli Perfformiad 4 – Gosod Amcanion.

Gellir cael copïau o'r llyfrynnau hyn ar wefan Llywodraeth y Cynulliad sef:

www.cymru.gov.uk/pynciau/addysgagiliau/cyhoeddiadau/canllawiau;

neu

teachingenquiries@wales.gsi.gov.uk.

3. Gan gyfeirio at reoli perfformiad, mae'r rheoliadau'n mynnu bod cyrff llywodraethu yn:

- penderfynu ar y gweithdrefnau ar gyfer adolygu perfformiad athrawon ysgol mewn ysgol ac yn amlinellu hyn mewn polisi ysgrifenedig erbyn 30 Tachwedd 2002;
- adolygu'r polisi ysgrifenedig bob blwyddyn;
- sicrhau yr ymgynghorir â phob athro yn yr ysgol cyn sefydlu neu ddiwygio'r polisi;
- sicrhau bod copi o'r polisi ar gael i bawb sy'n ymwneud â rheoli perfformiad;
- gweithredu'r polisi;
- sicrhau bod perfformiad athrawon yn cael ei adolygu yn unol â'r Rheoliadau (ac eithrio athrawon ar gontractau tymor penodol o lai na blwyddyn ysgol);
- penodi dau neu dri llywodraethwr a chynghorydd allanol i werthuso'r pennaeth;

- penderfynu ar union amseriad y cylch adolygu perfformiad ar gyfer y pennaeth;
- penderfynu ar y gweithdrefnau ar gyfer gwerthuso'r pennaeth a'r athrawon yn yr ysgol;
- penodi un neu ddau o lywodraethwyr fel swyddogion apêl i ystyried cwyn gan y pennaeth am ei adolygiad perfformiad os yw cadeirydd y llywodraethwyr wedi cymryd rhan yn yr adolygiad perfformiad hwnnw, a phenodi cynghorydd allanol i'w cynorthwyo; a
- chadw copi o ddatganiad adolygu perfformiad y pennaeth am dair blynedd o leiaf.

4. Rhaid i gadeirydd y llywodraethwyr:

- weithredu fel swyddog apêl ar gyfer apelau gan y pennaeth (ar yr amod ei fod ef neu hi heb gymryd rhan yn y gwaith o adolygu'r perfformiad), ac ar gyfer athrawon os mai'r pennaeth yw arweinydd y tîm;
- darparu copi o ddatganiad adolygu perfformiad a'r amcanion sy'n ymwneud â'r datganiad hwnnw i unrhyw swyddog apêl ac unrhyw gynghorydd allanol a benodwyd i'w gynorthwyo neu werthuswr neu gynghorydd allanol newydd;
- darparu atodiad hyfforddi a datblygu i ddatganiad adolygu'r pennaeth i'r sawl sy'n gyfrifol am hyfforddi a datblygu yn yr ysgol; a rhaid
- darparu crynodeb o ddatganiad adolygu'r pennaeth i'r Prif Swyddog Addysg, neu gynghorydd a ddynodwyd yn benodol gan y Prif Swyddog Addysg, ar gais.

5. Rhaid i'r corff llywodraethu benodi cynghorydd allanol i gynorthwyo'r gwerthuswyr. Bydd y cynghorydd yn arbenigwr a hyfforddwyd yn genedlaethol a fydd yn cynghori a chynorthwyo'r corff llywodraethu ar adolygu perfformiad y pennaeth.

6. Rhaid i'r llywodraethwyr a benodwyd i werthuso perfformiad y pennaeth:

- gyfarfod â'r pennaeth a'r cynghorydd ar ddechrau'r cylch adolygu perfformiad i gynllunio a pharatoi ar gyfer y gwaith o adolygu perfformiad, a phennu a chofnodi amcanion y pennaeth sy'n ymwneud ag arweinyddiaeth ysgol a rheoli cynnydd disgyblion;
- ceisio cytuno ar weithdrefnau gyda'r pennaeth ar gyfer monitro perfformiad yn ystod y cylch;
- cyfarfod gyda'r pennaeth a'r cynghorydd ar ddiwedd y cylch adolygu i adolygu perfformiad y pennaeth a nodi cyflawniadau, gan gynnwys asesu cyflawniadau yn erbyn amcanion, a thrafod a nodi anghenion/gweithgareddau datblygiad proffesiynol;

- ysgrifennu datganiad adolygu perfformiad a rhoi copi i'r pennaeth cyn pen 10 diwrnod wedi'r cyfarfod adolygu, a chaniatáu 10 diwrnod i'r pennaeth ychwanegu sylwadau ysgrifenedig;
- darparu datganiad adolygu perfformiad y pennaeth i'r pennaeth a chadeirydd y corff llywodraethu;
- ar gais, darparu copi o ddatganiad y pennaeth i'r llywodraethwyr hynny sy'n gyfrifol am wneud penderfyniadau mewn perthynas â dyrchafiad a chyflog;
- darparu copi o ddatganiad gwerthuso'r pennaeth i'r Prif Swyddog Addysg, neu swyddog dynodedig, os nad oes gan yr ysgol gyllideb ddirprwyedig; ac
- os ydynt wedi'u penodi fel gwerthuswyr, os yw adolygiad neu ran o adolygiad wedi'i orchymyn yn dilyn apêl, rhaid iddynt gwblhau'r gweithdrefnau cyn pen 15 diwrnod ysgol o orchymyn y swyddog apêl.

7. Rhaid i'r llywodraethwyr a benodwyd weithredu fel swyddogion apêl ar gyfer y pennaeth gan:

- gyflawni'r gwaith o adolygu apêl cyn pen 10 diwrnod ysgol ar ôl i'r swyddog neu swyddogion apêl dderbyn y datganiad adolygu; a rhaid
- ystyried unrhyw sylwadau a wnaed gan y pennaeth.

Asesu yn erbyn Safonau Athro Ôl-drothwy

8. Gall unrhyw athro â SAC sydd a'i gyflog a'i amodau wedi'u pennu dan y Ddogfen Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol, ac sy'n cael ei dalu ar bwyt M6 y brif raddfa gyflog, ymgeisio unwaith mewn unrhyw flwyddyn ysgol i'w bennaeth am asesiad yn erbyn safonau athro ôl-drothwy (a amlinellir yn Atodiad 1 y Ddogfen Cyflog ac Amodau Athrawon).

9. Yn achos ysgol sydd â chyllideb ddirprwyedig, y corff llywodraethu sy'n gyfrifol yn gyfreithiol am y broses drothwy. Fodd bynnag, mae'n ofynnol i'r corff llywodraethu ddirprwyo'r gwaith o dderbyn ac asesu ceisiadau i'r pennaeth.

10. Yn gyntaf, rhaid i'r pennaeth fod yn fodlon bod athro yn cyrraedd y safonau proffesiynol perthnasol cyn mynd ymlaen i asesu a yw'r athro'n cyrraedd y safonau ôl-drothwy. Os yw'r pennaeth yn fodlon bod yr athro'n bodloni'r safonau proffesiynol perthnasol, rhaid iddo wedyn asesu a yw'r athro'n bodloni'r safonau ôl-drothwy. Os yw pennaeth yn penderfynu nad yw ymgeiswyr wedi cyrraedd y safonau proffesiynol perthnasol neu heb gyrraedd y safonau ôl-drothwy, rhaid iddo roi ei resymau dros y penderfyniad iddynt. Dylent hefyd ymdrin â holl agweddau ymarferol y broses.

11. Yn achos athrawon digyswllt, mae'r awdurdod sy'n eu cyflogi yn gyfreithiol gyfrifol am y broses hon and mae'n ofynnol iddo ddirprwyo'r gwaith o dderbyn ac asesu eu ceisiadau i'r unigolyn sydd â chyfrifoldeb rheoli drostynt.

12. Disgwylir i bawb sy'n gysylltiedig â'r broses asesu weithredu'n deg, ac yn arbennig rhaid iddynt beidio â gwahaniaethu ar sail rhyw, cyfeiriadedd rhywiol, oed, tarddiad ethnig, credo crefyddol, anabledd neu weithgareddau undeb llafur ymgeisydd neu am fod yr unigolyn yn gweithio'n rhan-amser neu wedi'i gyflogi dan gontract tymor penodol. Mae gan athrawon sy'n tybio bod rhywun wedi gwahaniaethu'n anghyfreithlon yn eu herbyn ar sail unrhyw un o'r rhain gyfle i droi at y broses apêl cyflog yn eu hysgol yn ogystal â hawliau cyfreithiol a chmau unioni eraill.

G. Disgyblu a Diswyddo Staff, Gweithdrefnau Achwyn a Gwahardd Staff

1. Mae'n ofynnol i'r corff llywodraethu fabwysiadu rheolau a gweithdrefnau i reoleiddio ymddygiad a disgyblaeth yr holl staff y mae'n eu cyflogi neu â chyfrifoldeb o ddydd i ddydd amdanynt (ac eithrio rhai staff ategol). Rhaid i'r rhain gynnwys rheolau a gweithdrefnau ar gyfer ymdrin â **materion disgyblu a diswyddo staff**, a diffyg gallu ar ran unrhyw aelod o staff. Mae'n rhaid iddynt hefyd sicrhau bod ganddynt weithdrefnau i staff eu dilyn os oes ganddynt achwyniad neu gŵyn am eu cyflogaeth.
2. Er y gall corff llywodraethu ddewis dilyn polisïau neu weithdrefnau a amlinellwyd gan ei ALI neu awdurdod esgobaethol perthnasol (lle bo'n berthnasol) **rhaid** iddo gytuno'n ffurfiol i fabwysiadu gweithdrefnau o'r fath fel ei rai ef ei hun. Dylid sicrhau bod yr holl weithdrefnau'n hysbys i'r staff yn yr ysgol.
3. Mae gan y corff llywodraethu a'r pennaeth y grym i wahardd dros dro ar gyflog llawn unrhyw un sy'n gweithio yn yr ysgol, os yw hynny i'w weld yn angenrheidiol. Rhaid i'r naill hysbysu'r llall a'r ALI os bydd yn cymryd camau o'r fath. Dim ond y corff llywodraethu all ddod â gwaharddiad i ben.
4. Gall y corff llywodraethu ddirprwyo gweithdrefnau achwyn i un neu fwy o'r llywodraethwyr, i'r pennaeth neu i un neu fwy o'r llywodraethwyr a'r pennaeth gyda'i gilydd. Gall pwyllgor achwyn gynnwys aelodau nad ydynt yn llywodraethwyr a all fod yn aelodau â phleidlais, os yw'r corff llywodraethu wedi cytuno ar hyn. Fodd bynnag, ni ddylai corff llywodraethu adael i unrhyw gorff neu unigolion allanol wneud penderfyniadau drosto.
5. Rhaid dirprwyo materion disgyblu a diswyddo staff i bwyllgor o'r enw [Pwyllgor Disgyblu a Diswyddo Staff](#). Dylid dirprwyo gwrandawriad ar unrhyw apelau i bwyllgor a elwir yn Bwyllgor Apêl Disgyblu a Diswyddo Staff.
6. Mae'r gwaith o sefydlu a phenderfynu ar broses pwyllgorau disgyblu a phwyllgorau apêl disgyblu wedi'u hamlinellu yn [Rhan 9 o Reoliadau Llywodraethu Ysgolion a Gynhelir \(Cymru\) 2005](#). Dan y rheoliadau hyn mae'n ofynnol i gorff llywodraethu gytuno ar aelodaeth ei bwyllgorau ac adolygu'r aelodaeth bob blwyddyn. Gall fod yna adegau pan nad yw aelod/au pwyllgor disgyblu staff yn gallu gweithredu yn y swyddogaeth honno. Er enghraifft, efallai na fydd llywodraethwr ar gael neu hwyrach y bydd gwrthdaro buddiannau ac nad yw'n gallu gweithredu'n ddiuedd. Dan yr amgylchiadau hyn rhaid dewis llywodraethwyr eraill i weithredu ar y pwyllgor disgyblu. Gan mai cyfrifoldeb y corff llywodraethu yw penderfynu ar aelodaeth ei bwyllgor, ni ellir dirprwyo'r gwaith o ddewis llywodraethwyr eraill i gadeirydd y llywodraethwyr. Mae'n gwneud synnwyr felly, ar adeg cytuno ar aelodau'r pwyllgor, i'r corff llywodraethu hefyd gytuno ar broses ar gyfer galw llywodraethwyr wrth gefn. Gallai hyn ddigwydd trwy lunio rhestr wrth gefn o llywodraethwyr mewn trefn blaenoriaeth, i'r cadeirydd/clerc gysylltu â nhw.

7. Rhaid i'r pwyllgor disgyblu a diswyddo gynnwys dim llai na thri llywodraethwr a rhaid i'r pwyllgor apêl disgyblu a diswyddo gynnwys dim llai o lywodraethwyr na'r pwyllgor disgyblu a diswyddo, penderfyniad yr hwn sy'n destun yr apêl, yn amodol ar y paragraff canlynol. Mae'r cworwm ar gyfer unrhyw gyfarfod a phleidlais ar unrhyw fater yr un fath â'r lleiafrif o lywodraethwyr sydd eu hangen ar gyfer y pwyllgor.

8. Mae rheoliad 55 o Reoliadau Llywodraethu Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2005 (fel y'i diwygiwyd gan reoliad 8(3) o'r Rheoliadau Staffio yn nodi, os gwneir honiadau yn erbyn aelod staff sy'n cynnwys materion amddiffyn plant, bod yn rhaid i'r pwyllgor disgyblu a diswyddo gynnwys dim llai na dau o lywodraethwyr ac unigolyn annibynnol nad yw'n llywodraethwr yr ysgol. Rhaid i'r pwyllgor apêl disgyblu a diswyddo mewn materion o'r fath gynnwys dim llai o lywodraethwyr na'r panel cyntaf ac unigolyn annibynnol, ac ni ddylai unrhyw un ohonynt fod wedi bod yn gysylltiedig â'r pwyllgor cyntaf.

Honiadau yn ymwneud ag Amddiffyn Plant yn erbyn Staff Ysgol

9. Yn unol â'r Rheoliadau Staffio, mae'n ofynnol i gyrff llywodraethu sicrhau bod pob honiad yn ymwneud ag amddiffyn plant yn cael ei ymchwilio'n annibynnol cyn cynnal unrhyw wrandawiadau disgyblu/diswyddo staff sy'n ymwneud â'r honiadau hynny. Fel arfer, pan fo corff llywodraethu yn cynnal gwrandawiadau disgyblu/diswyddo staff rhaid i'r honiad gael ei ystyried yn gamymddwyn difrifol (a chyfeirir ato fel camymddygiad difrifol yn y Canllaw hwn). Mae'n rhaid i gyrff llywodraethu hefyd sicrhau bod ganddynt aelod nad yw'n llywodraethwr annibynnol gyda hawliau pleidleisio llawn ar y pwyllgor disgyblu staff a'r pwyllgor apêl disgyblu.

10. Yr unig eithriad yw, yn dilyn ymgynghoriad cychwynnol gyda swyddog amddiffyn plant arweiniol yr ALL, bod y pennaeth/cadeirydd y llywodraethwyr yn dod i'r casgliad bod yr honiad yn amlwg yn ffug, oherwydd bod amgylchiadau'r honiad yn dangos heb os nac oni bai nad yw'n bosibl iddo fod yn wir, neu nad yw'r honiad yn cyfateb i gamymddygiad difrifol. Enghraifft o hyn yw lle gellir profi nad oedd yr unigolyn sy'n destun yr honiad yn yr un lle ar yr un pryd â'r sawl sy'n gwneud yr honiad. Yn yr achosion hyn, nid oes angen i'r corff llywodraethu ddechrau gweithdrefnau disgyblu ac felly nid oes angen penodi ymchwilydd annibynnol.

11. Er mwyn cynorthwyo gyrff llywodraethu gyda'r broses ymchwilio, mae Llywodraeth y Cynulliad wedi sefydlu Gwasanaeth Ymchwilio Annibynnol i ddarparu ymchwilydd annibynnol a hyfforddedig i gorff llywodraethu am ddim. Yn gyfreithiol gall y corff llywodraethu benodi ei ymchwilydd annibynnol ei hun gyda'r gost yn cael ei thalu o gyllideb ddirprwyedig y corff llywodraethu, ond nid yw Llywodraeth y Cynulliad yn argymhell y cam gweithredu hwn.

12. Swyddogaeth yr ymchwilydd annibynnol yw:

- ystyried yr holl dystiolaeth, gan gynnwys tystiolaeth a roddir gan yr awdurdodau statudol, er mwyn sefydlu ac archwilio'r ffeithiau sy'n ymwneud â honiad. Gall hyn gynnwys cyfweld tystion;
- cynhyrchu adroddiad trwyadl, teg a diduedd o'r ffeithiau i'r pwyllgor disgyblu a diswyddo staff;
- cyflwyno adroddiad yn y gwrandawriad disgyblu ac unrhyw wrandawriad apêl. Bydd y cyflwyniad gan yr ymchwilydd yn canolbwyntio ar y ffeithiau yn yr adroddiad yn unig ac yn cael ei gyflwyno'n ddiuedd.

13. Er mwyn diogelu annibyniaeth yr ymchwilydd ni fydd yn cynrychioli safbwyntiau unrhyw un o'r partïon ynghlwm wrth yr achos nac yn cyflwyno'r achos ar ran unrhyw barti.

14. Pwyllgor disgyblu a diswyddo staff (gan gynnwys yr aelod nad yw'n llywodraethwr) fel corff sydd i benderfynu pa gamau i'w cymryd, os o gwbl, yn seiliedig ar ganfyddiadau'r adroddiad. Nid swyddogaeth yr ymchwilydd nac unrhyw unigolyn neu gorff arall yw gwneud y penderfyniad hwn. Wrth ystyried adroddiad yr ymchwiliad, mae'n bwysig i'r holl bartïon ystyried a chydymffurfio â gofynion Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Deddf Diogelu Data 1998.

15. Gall cyrff llywodraethu wrthwynebu ymchwilydd sydd wedi'i neilltuo gan y Gwasanaeth Ymchwilio Annibynnol os oes ganddynt dystiolaeth bod yr unigolyn yn perthyn i un o'r categorïau sydd wedi'u heithrio gan reoliad, neu os yw aelod o'r pwyllgor disgyblu a diswyddo staff, y pwyllgor apêl disgyblu a diswyddo staff neu aelod staff, neu ei gynrychiolydd undeb yn ei adnabod; a bod amheuaeth a yw'n ddiuedd. Dan yr amgylchiadau hyn byddai angen i gadeirydd y pwyllgor gyflwyno'i dystiolaeth/thystiolaeth i Reolwr y Gwasanaeth Ymchwilio Annibynnol a gofyn i ymchwilydd arall gael ei neilltuo.

Yr Aelod nad yw'n Llywodraethwr o'r Pwyllgor Disgyblu a Diswyddo Staff a Phwyllgorau Apêl Disgyblu a Diswyddo Staff

16. Gall yr aelod annibynnol nad yw'n llywodraethwr gymryd lle un o'r tri llywodraethwr sydd wedi'u neilltuo i fod ar y pwyllgor disgyblu/diswyddo staff a'r pwyllgor apêl, neu gall fod yn ychwanegol i'r tri llywodraethwr. Rhaid bod dau lywodraethwr o leiaf ar bob pwyllgor a byddai gan gadeirydd y pwyllgor bleidlais fwrw pe bai'r penderfyniad yn gyfartal. Ni all yr aelod nad yw'n llywodraethwr fod yn gadeirydd y naill bwyllgor na'r llall.

17. Mae angen aelod annibynnol nad yw'n llywodraethwr gwahanol ar gyfer pob pwyllgor.

18. Yn unol â'r Rheoliadau Staffio ni all yr ymchwilydd annibynnol a'r aelod annibynnol nad yw'n llywodraethwr fod yn:

- llywodraethwr yr ysgol dan sylw (ond gallai fod yn llywodraethwr ysgol arall);
- rhiant disgybl presennol neu gyn-ddisgybl yn yr ysgol dan sylw;
- aelod staff presennol neu gyn-aelod staff yn yr ysgol dan sylw; neu
- unigolyn wedi'i gyflogi gan yr ALI sy'n cynnal yr ysgol dan sylw.

19. Swyddogaeth yr aelod nad yw'n llywodraethwr yw bod yn bresennol gyda'r aelodau sy'n llywodraethwyr eraill y pwyllgor pan fyddant yn derbyn yr adroddiad gan yr ymchwilydd annibynnol, er mwyn penderfynu pa gamau disgyblu, os o gwbl, sydd eu hangen. Byddant hefyd yn cymryd rhan mewn trafodaethau ac yn cynnig cyngor ac arweiniad i'r llywodraethwyr eraill i'w galluogi i roi sylw priodol i'r holl dystiolaeth a gyflwynir yn y gwrandawriad disgyblu/diswyddo, fel y gall y pwyllgor ddod i benderfyniadau teg a chytbwys ar sail y dystiolaeth. Un o'r sgiliau allweddol sydd i'w disgwyl gan aelod nad yw'n llywodraethwr felly yw sgiliau dadansoddi ynghyd â gwybodaeth am faterion amddiffyn plant.

20. Nid oes unrhyw gyfarwyddiadau ar gyfer cyrff llywodraethu ynglŷn â ble y gallant chwilio am eu haelod nad yw'n llywodraethwr, ond efallai y gall cyrff llywodraethu ystyried:

- unigolyn o ALI cyfagos (mae profiad wedi dangos bod pobl sy'n cael cais i ymchwilio i faterion disgyblu/diswyddo fel arfer yn dod o adrannau Addysg, Adnoddau Dynol neu Gyfreithiol) ond fe allent fod yn gweithio yn rhywle arall yn yr awdurdod lleol;
- llywodraethwr sydd â phrofiad addas o gorff llywodraethu arall;
- unigolyn sydd â phrofiad addas o leoliad gwirfoddol, megis Swyddfa Cyngor ar Bopeth; neu
- unigolyn annibynnol hunangyflogedig gyda'r sgiliau priodol, gyda rhai ohonynt efallai â phrofiad blaenorol yn gweithio mewn ALI.

21. I fod yn glir, nid yw'r aelod nad yw'n llywodraethwr yn cymryd lle cynghorydd yr ALI, sydd â hawliau diamod i fynychu'r holl gyfarfodydd diswyddo i roi cyngor i'r corff llywodraethu. Fodd bynnag, os nad yw cynrychiolydd yr ALI yn bresennol pan fo'r pwyllgor disgyblu staff yn trafod y dystiolaeth gall roi cyngor os yw'r pwyllgor yn gofyn amdano.

Y Broses ar gyfer Ymdrin â Honiadau Amddiffyn Plant

22. Pan fo pennaeth yn derbyn honiad yn erbyn aelod staff a allai gynnwys materion amddiffyn plant dylid cyfeirio'r mater yn ddiymdroi i'r awdurdod statudol sef yr Heddlu a'r Gwasanaethau Cymdeithasol, er mwyn iddynt ei ystyried. Os yw'r honiad ynghylch y pennaeth, dylai cadeirydd y llywodraethwyr dderbyn yr honiad ac, os gallai gynnwys materion amddiffyn

plant, dylai ei ddwyn i sylw'r awdurdodau statudol. Bydd yr awdurdodau statudol yn cynnal cyfarfod strategaeth i ystyried pa gamau, os o gwbl, sydd angen iddynt eu cymryd. Bryd hyn dylai'r corff llywodraethu a/neu'r pennaeth ystyried a ddylid gwahardd yr aelod staff dros dro.

23. Mae'r gwaith o ystyried yr honiad gan yr Heddlu a'r Gwasanaethau Cymdeithasol yn cael blaenoriaeth dros unrhyw gamau gan y corff llywodraethu. Bryd hyn felly, dylai'r corff llywodraethu nodi Llywodraethwr Cyswllt yn unig (y pennaeth neu gadeirydd y llywodraethwyr fel arfer ond gall fod yn llywodraethwr arall) i fynychu'r cyfarfodydd strategaeth a chadarnhau pwy sy'n aelodau o'r pwyllgor disgyblu a'r pwyllgor apêl disgyblu staff.
Ni ddylai'r corff llywodraethu gymryd unrhyw gamau pellach.

24. Swyddogaeth y 'Llywodraethwr Cyswllt' yw mynychu'r cyfarfodydd strategaeth fel y gall roi gwybodaeth gyffredinol i'r corff llywodraethu am y ffordd y mae'r achos yn mynd yn ei flaen. **Ni ddylai'r** Llywodraethwr Cyswllt ddatgelu unrhyw fanylion am yr achos i'r corff llywodraethu fodd bynnag. Hefyd, cyn adrodd ar unrhyw wybodaeth, dylai cadeirydd y llywodraethwyr sicrhau bod aelodau'r pwyllgor disgyblu staff a'r pwyllgor apêl disgyblu staff yn gadael yr ystafell fel nad ydynt yn cael eu lliwio ac na ellir eu cyhuddo o fod wedi cael eu lliwio.

25. Pan fydd yr awdurdodau statudol wedi cwblhau eu gwaith o ystyried yr honiad byddant yn cyfeirio'r mater yn ôl i'r corff llywodraethu i gwblhau'r broses ddisgyblu. Swyddogaeth y corff llywodraethu ar hyn o bryd yw peidio ag ystyried unrhyw agweddau troseddol ar yr honiad (dyna swyddogaeth yr Heddlu a'r Gwasanaethau Cymdeithasol) ond edych ar ymddygiad ehangach yr aelod staff a arweiniodd at yr honiad hy a wnaeth yr aelod staff fethu â chydymffurfio â pholisi neu weithdrefn y corff llywodraethu.

26. Cyn gynted ag y bydd yr honiad wedi'i gyfeirio'n ôl i'r ysgol rhaid i'r pennaeth neu gadeirydd y llywodraethwyr, fel sy'n berthnasol, a chan drafod â swyddog amddiffyn plant arweiniol yr ALI, benderfynu a yw'r amgylchiadau yn dangos bod yr honiad yn amlwg yn ffug ac nad oes angen gweithredu pellach; neu a yw'r honiad yn cael ei ystyried yn gamymddwyn llai a bod modd defnyddio gweithdrefnau'r ysgol y cytunwyd arnynt i ymdrin ag ef; neu a oes angen mynd ymlaen i wrandawriad disgyblu.

27. Os tybir bod y mater yn gamymddwyn llai ac nid yn fater o amddiffyn plant y dylid ei gyfeirio i'r Awdurdodau Statudol. Gall y pennaeth (neu gadeirydd y llywodraethwyr os yw'r honiad yn ymwneud â'r pennaeth) ymdrin â'r mater os yw'r corff llywodraethu wedi dirprwyo cyfrifoldeb am faterion o'r fath i'r pennaeth.

28. Os ystyrir bod yr honiad yn cynnwys materion amddiffyn plant sy'n cyfateb i ymddygiad o gamymddwyn difrifol, cyn unrhyw wrandawriadau disgyblu **rhaid** i'r corff llywodraethu drefnu i'r honiad gael ei ymchwilio'n annibynnol. Gall cyrff llywodraethu ddewis defnyddio Gwasanaethau Ymchwiliadau Annibynnol Llywodraeth y Cynulliad sy'n darparu archwilwyr

annibynnol am ddim, neu gallant ddewis eu harchwilwyr annibynnol eu hunain a defnyddio cyllideb ddirprwyedig yr ysgol i dalu amdanynt.

A oes angen cynnal gwrandawriad disgyblu/diswyddo ar gyfer honiad yn ymwneud ag amddiffyn plant lle mae'r awdurdodau statudol wedi cytuno nad yw'r honiad yn fater amddiffyn plant?

29. Nid swyddogaeth Pwyllgor Strategaeth yr Awdurdodau Statudol yw gwneud unrhyw benderfyniadau am faterion disgyblu staff ysgol, gan nad oes ganddo unrhyw gyfrifoldeb statudol i wneud hynny. Cyfrifoldeb statudol y corff llywodraethu yw hynny. Mae'n dilyn felly nad yw penderfyniad y pwyllgor strategaeth nad yw honiad yn ei farn ef yn fater amddiffyn plant, neu na fydd yr awdurdod statudol yn gweithredu, yn golygu nad oes angen i'r corff llywodraethu gwblhau'r broses disgyblu staff yn erbyn yr aelod staff. Nid yw'n golygu chwaith nad oes honiad disgyblu staff i'r corff llywodraethu ymdrin ag ef o hyd.

30. Nid yw'n briodol i'r corff llywodraethu ddod i'r casgliad, oherwydd bod yr awdurdodau statudol o'r farn nad oes yna unrhyw faterion amddiffyn plant, neu nad oes erlyniad neu os yw'r erlyniad yn methu, nad oes angen camau disgyblu. Mae angen i gyrff llywodraethu gydnabod:

- bod angen safon uwch o brawf ar gyfer achosion troseddol nag ar gyfer gweithdrefnau disgyblu; neu
- y gall gweithdrefnau disgyblu gynnwys materion ehangach sy'n ymwneud â'r honiad na'r rhai a ystyriwyd gan yr awdurdodau statudol; neu
- bod ganddynt ddyletswydd gofal gyffredinol i ddisgyblion ac eraill mewn ysgol sy'n mynd y tu hwnt i ystyriaethau'r pwyllgor strategaeth.

31. Ni ddylai'r corff llywodraethu ymwneud â gweithredoedd troseddol aelod staff, dyna swyddogaeth yr Heddlu a'r Gwasanaethau Cymdeithasol. Dylai'r corff llywodraethu ystyried agweddau ehangach ac ymddygiad aelod staff mewn perthynas â'r honiad, ac a yw'r ymddygiad hwnnw yn gyson â pholisi ymddygiad ac ethos staff yn yr ysgol honno, ac a weithredwyd yn groes i'r polisiau hynny. Er enghraifft, a wnaeth yr aelod staff anwybyddu polisi ysgol neu gyfarwyddyd gan y pennaeth?

32. Nid yw penderfyniad y pwyllgor strategaeth sef nad oes unrhyw faterion amddiffyn plant neu nad ydynt yn bwriadu gweithredu, yn newid neu'n 'israddio' penderfyniad gwreiddiol y pennaeth neu gadeirydd y llywodraethwyr neu swyddog arweiniol yr ALI bod yr honiad wedi ei ystyried yn un o gamymddwyn difrifol, y byddai gweithdrefnau disgyblu staff y corff llywodraethu yn cael eu defnyddio i ymdrin ag ef. Mewn achosion o'r fath mae dal angen cynnal ymchwiliad annibynnol a chwblhau'r broses ddisgyblu yn gywir.

A oes angen ymchwiliad annibynnol os yw'r honiad yn cael ei dynnu'n ôl?

33. Os yw'r unigolyn sy'n gwneud yr honiad amddiffyn plant yn ei dynnu'n ôl am unrhyw reswm, neu ar unrhyw adeg yn y broses, nid oes angen penodi ymchwilydd annibynnol. Os digwydd hyn pan fo ymchwiliad annibynnol eisoes wedi cychwyn dylid ei ddwyn i ben heb roi adroddiad i gadeirydd y pwyllgor disgyblu a diswyddo. Fodd bynnag, y corff llywodraethu sydd i benderfynu a oes yna unrhyw faterion disgyblu staff nad ydynt yn rhai amddiffyn plant sy'n rhaid eu hystyried o hyd. Fodd bynnag, nid oes angen ymchwiliad annibynnol ar eu cyfer a gall yr ysgol gynnal yr ymchwiliad.

34. Os yw disgybl yn gwneud honiad y disgybl ddylai ei dynnu'n ôl. Ni ddylai'r corff llywodraethu dderbyn honiad sy'n cael ei dynnu'n ôl gan unigolyn arall ar ran y disgybl, hyd yn oed os yw'n rhiant neu warcheidwad, oni bai bod y plentyn yn cytuno'n llafar neu'n ysgrifenedig ym mhresenoldeb y pennaeth neu gadeirydd y llywodraethwyr neu aelod o'r pwyllgor disgyblu.

Diswyddo Staff

35. Os yw corff llywodraethu ysgol gymunedol neu ysgol wirfoddol a reolir (trwy broses y cytunwyd arni) yn penderfynu y dylai unrhyw un sydd wedi'i gyflogi neu sy'n cael ei ddefnyddio gan yr awdurdod i weithio mewn ysgol roi'r gorau i weithio yno, rhaid iddo wneud trefniadau i'r unigolyn hwnnw gyflwyno sylwadau i'r corff llywodraethu a rhoi sylw i'r sylwadau hynny. Gweler Rheoliad 17 y Rheoliadau Staffio.

36. Rhaid i'r corff llywodraethu hefyd wneud trefniadau i ganiatáu i'r unigolyn hwnnw gael cyfle i apelio yn erbyn y penderfyniad cyn hysbysu'r ALI. Yr ALI sy'n gyfrifol am derfynu contract yr aelod staff.

F
VA
FS 37. Mewn ysgol sefydledig, ysgol wirfoddol a gynorthwyr neu ysgol arbennig sefydledig, bydd y corff llywodraethu yn cyflwyno hysbysiad terfynu contract. Cyn gwneud hynny rhaid i'r corff llywodraethu ganiatáu'r hawl i'r aelod staff apelio yn erbyn ei benderfyniad. Gweler rheoliad 29 y Rheoliadau Staffio. Nid yw hyn yn berthnasol mewn perthynas â staff wedi'u cyflogi gan yr ALI i weithio yn yr ysgol.

38. Mae hawl gan y pennaeth (ac eithrio pan mai ef neu hi yw'r person dan sylw) a Phrif Swyddog Addysg yr ALI fynychu, at ddibenion rhoi cyngor, holl wrandawiadau disgyblu staff a phwyllgor apêl disgyblu staff. Rhaid i'r corff llywodraethu ystyried unrhyw gyngor a roddir gan unigolyn (unigolion) cyn gwneud ei benderfyniad.

39. Os yw'r unigolyn yn gweithio yn yr ysgol yn unig, rhaid i'r ALI, fel y cyflogwr, gyflwyno'r hysbysiad diswyddo neu, os yw'r amgylchiadau'n cyfiawnhau hynny, derfynu'r contract cyn pen 14 diwrnod. Os yw ef neu hi yn gweithio yn rhywle arall i'r ALI, rhaid i'r ALI dynnu'r unigolyn o'r ysgol sydd wedi cyflwyno'r hysbysiad diswyddo yn unig.

40. Rhaid i'r corff llywodraethu roi datganiad ysgrifenedig i'r gweithiwr cyflogedig yn rhoi'r rhesymau am y diswyddiad. Byddai'n arfer da anfon copi o'r datganiad i'r ALI fel y cyflogwr. Gall gweithiwr cyflogedig sy'n teimlo ei fod wedi cael ei ddiswyddo'n annheg gwyno wrth Dribiwnlys Cyflogaeth. Os yw corff llywodraethu yn amheus am y ffordd y mae cyfraith cyflogaeth yn effeithio ar achos arbennig, dylai ofyn am gyngor pellach gan yr ALI.

41. Rhaid i gyflogwyr adrodd ar bob achos i'r Awdurdod Diogelu Annibynnol lle maent yn rhoi'r gorau (neu wedi rhoi'r gorau o bosibl) i ddefnyddio gwasanaethau unigolyn am ei fod yn cael ei ystyried yn anaddas i weithio gyda phlant; neu o ganlyniad i gamymddwyn; neu am fod cyflwr meddygol yn codi mater sy'n ymwneud â diogelwch a lles plant, waeth a yw contract unigolyn yn cael ei derfynu neu ei fod yn gadael yn wirfoddol. Gweler Adran D o'r Bennod hon hefyd.

Dileu Swydd

42. Dylai pob corff llywodraethu fod â pholisi y cytunwyd arno ac sydd wedi'i fabwysiadu ar gyfer nodi swyddi unigolyn (unigolion) sydd i'w dileu. Mae'n bwysig, os nad oes angen swydd ar ysgol bellach neu fod yn rhaid iddi ostwng nifer y staff, bod y corff llywodraethu yn dilyn y polisi hwnnw a'r weithdrefn ar gyfer cyfarfodydd pwyllgor disgyblu a diswyddo staff a'i bwyllgor apêl, a amlinellir yn gynharach yn y bennod hon.

43. Cyn diswyddo ar sail dileu swydd unrhyw unigolyn sydd â contract cyflogaeth sy'n dweud mai ei fan gwaith yw'r ysgol, rhaid talu sylw i'r holl ofynion statudol perthnasol, megis y rhai sy'n ymwneud â dethol staff ar gyfer dileu swydd ac ymgynghori ag undebau llafur ac eraill.

44. Pryd bynnag y mae corff llywodraethu yn ystyried dileu swyddi, dylai gael cyngor gan yr ALI yn ogystal â chan ddarparu'r gwasanaeth personél proffesiynol arall. Bydd angen i'r ALI ystyried a oes unrhyw swyddi addas eraill yn yr ardal.

Ymddeol yn Gynnar ac Iawndal am Ddileu Swydd

45. Wrth ystyried ymddeol yn gynnar neu ddileu swydd, dylai'r corff llywodraethu gofio bod adran 37 o Ddeddf Addysg 2002 yn rhoi grym i ALLau gymryd costau ymddeoliadau cynnar (gan gynnwys cost unrhyw wasanaeth blynnyddoedd ychwanegol) o gyllidebau ysgolion os nad ydynt wedi cytuno i'r ymddeoliad cynnar. Mae Adran 37(5) o Ddeddf Addysg 2002 yn golygu y gall ALI gymryd costau iawndal dewisol am ddileu swydd o gyllideb ysgol, os oes ganddo reswm da dros wneud hyn (enghraifft o reswm da efallai fyddai os yw'r ALI o'r farn bod y taliad dewisol mewn achos arbennig yn rhy uchel o gymharu â'i bolisi ei hun). Mae'n bwysig, felly, i'r corff llywodraethu gynnal trafodaethau gyda'i ALI am ymddeoliadau cynnar a'r iawndal dileu swydd y bwriadant eu rhoi. (Mae mwy o wybodaeth yn Rheoliadau Athrawon (Iawndal am Ddileu Swydd ac Ymddeoliad Cynnar) 1997 fel y'u diwygiwyd).

46. Y corff llywodraethu sy'n penderfynu a ddylid caniatáu ymddeoliad cynnar i athrawon sydd rhwng 50 a 60 oed, ac a ddylid dyfarnu gwasanaeth blynyddoedd ychwanegol iddynt dan Reoliadau Athrawon (Iawndal am Ddileu Swydd ac Ymddeoliad Cynnar) 1997. Gall y corff llywodraethu ganiatáu ymddeoliad cynnar naill ai am resymau colli swydd neu, os yw'r cyflogwr yn terfynu cyflogaeth athro, er lles rheoli'r ysgol yn effeithlon.

47. Os yw corff llywodraethu yn caniatáu ymddeoliad cynnar i athro, bydd yn rhaid i'r ALI, fel yr awdurdod digolledu, dalu iawndal gorfodol tuag at bensiwn blynyddol yr athro hwnnw a chyfundaliad ymddeoliad (gan gofio paragraff 37 uchod). Bydd maint yr iawndal gorfodol yn adlewyrchu cost y cynllun pensiwn o ganiatáu i athro gymryd ei bensiwn cyn ei fod yn 60 oed. Po ifancaf yw'r athro pan gaiff ymddeoliad cynnar, uchaf i gyd yw maint yr iawndal gorfodol y bydd yn rhaid i'r ALI ei dalu.

48. Y corff llywodraethu sy'n penderfynu hefyd ar lefel yr iawndal i'w ganiatáu i aelod staff y mae ei swydd yn cael ei dileu. Dan Ddeddf Hawliau Cyflogaeth 1996, er bod yn rhaid iddo wneud taliad iawndal statudol am ddileu swydd (wedi'i gyfrifo gan ddefnyddio nifer y blynyddoedd o wasanaeth a therfyn rhagnodedig ar enillion wythnosol a all newid o bryd i'w gilydd), y corff llywodraethu sydd i benderfynu a ddylid talu iawndal pellach ar ben hynny. Er enghraifft, dan Reoliadau Athrawon (Iawndal am Ddileu Swydd ac Ymddeoliad Cynnar) 1997, efallai y bydd gan gyrff llywodraethu yr hawl i seilio taliad dileu swydd ar gyflog gwirioneddol yr athro. (Hefyd, gall y corff llywodraethu wneud taliad diswyddo cychwynnol i athrawon y mae eu swyddi'n cael eu dileu ac y mae eu cyflogaeth yn cael ei therfynu ar sail effeithlonrwydd, ond dim ond os nad yw'r corff llywodraethu wedi caniatáu ymddeoliad cynnar.)

49. Efallai bod gan rai staff a benodwyd rai blynyddoedd yn ôl gontractau sy'n dweud pa daliadau y dylid eu gwneud os yw'r athro yn ymddeol yn gynnar. Dylai'r corff llywodraethu wneud yn siŵr bod unrhyw benderfyniad ynghylch faint ddylid cynyddu'r pensiwn yn ystyried y rhain. Dylid cael cyngor cyfreithiol.

Tribiwnlysoedd Cyflogaeth

50. Mae Tribiwnlysoedd Cyflogaeth (Tribiwnlysoedd Diwydiannol gynt) yn gwrando ar gwynion lle mae cyflogwyr wedi gwahaniaethu yn erbyn unigolion neu wedi methu â pharchu eu hawliau dan gyfraith cyflogaeth. Er enghraifft:

- diswyddo gweithiwr cyflogedig yn annheg;
- gwrthod gadael i fenyw ddychwelyd i'r gwaith mewn ysgol ar ôl cael babi; neu
- wrthod rhoi'r wybodaeth sydd ei hangen ar gyfer unrhyw drafodaethau i undebau llafur.

51. Gall tribiwnlysoedd orchymyn i weithiwr cyflogedig gael ei ail-ddefnyddio neu ei fod yn cael ei hen swydd yn ôl a gallant ddyfarnu iawndal.

52. Os yw'r gŵyn am benderfyniad gan gorff llywodraethu, efallai y bydd yn rhaid i'r corff llywodraethu ymddangos gerbron Tribiwnlys Cyflogaeth i amddiffyn ei gamau gweithredu. Rhaid i'r corff llywodraethu hysbysu'r ALI cyn pen 14 diwrnod o gael hysbysiad am gais Tribiwnlys Cyflogaeth. Mewn achosion o ddiswyddo, bydd yr ALI yn talu unrhyw iawndal neu gostau cyfreithiol a ddyfernir gan Dribiwnlys Cyflogaeth, oni bai y gall ddangos bod ganddo reswm da dros godi tâl ar yr ysgol. Gall hyn ddigwydd, er enghraifft, os yw'r ALI wedi cynghori'r corff llywodraethu yn y lle cyntaf bod Tribiwnlys Cyflogaeth yn debygol o benderfynu bod y diswyddiad yn annheg. Fodd bynnag, yn gyfreithiol, nid yw'r ffaith bod gan ALI bolisi "dim dileu swyddi" yn ddigon o reswm i wneud i'r ysgol dalu. Mewn achosion heblaw diswyddo (megis gwahaniaethu), dylai'r ysgol neu'r ALI yn ganolog dalu unrhyw iawndal neu gostau cyfreithiol, yn unol â threfniadau lleol. Gall ALI ddarparu ar gyfer hyn dan ei gynllun dan adran 48 o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998.

H. Materion Staffio Cysylltiedig

Pryderon Awdurdod Lleol am Berfformiad Pennaeth

1. Rhaid i'r ALI anfon adroddiad ysgrifenedig at gadeirydd y corff llywodraethu os oes ganddo bryderon difrifol am berfformiad pennaeth. Ar yr un pryd rhaid i'r ALI anfon copi o'r adroddiad at y pennaeth. Rhaid i'r cadeirydd hysbysu'r ALI yn ysgrifenedig am y camau y mae'n bwriadu eu cymryd yng ngoleuni'r adroddiad.

Cynllun Pensiwn Athrawon

2. Mae angen i lywodraethwyr fod yn ymwybodol o'r hyblygrwydd sy'n bodoli yng Nghynllun Pensiwn Athrawon, oherwydd gallant gynorthwyo gyda'r gwaith o reoli'r gweithlu a chynllunio olyniaeth. O 1 Ionawr 2007 ymlaen mae newidiadau a gyflwynwyd i Gynllun Pensiwn Athrawon wedi rhoi mwy o hyblygrwydd a mwy o ddewis ynglŷn â'r ffordd y mae unigolion yn cynilo a chynllunio ar gyfer ymddeoliad.

3. Nid yw'r newidiadau wedi newid oed pensiwn i'r aelodau presennol, sy'n parhau'n 60 oed. Bydd oed pensiwn arferol o 65 oed ar gyfer unrhyw wasanaeth pellach gan rai newydd sydd wedi ymuno â'r Cynllun ar neu ar ôl 1 Ionawr 2007, neu'r rhai sydd â bylchau o fwy na phum mlynedd yn eu gwasanaeth. Bydd athrawon yn dal i allu ymddeol ar, cyn neu ar ôl eu hoed pensiwn arferol.

4. Bydd y trefniadau diwygiedig yn caniatáu i athrawon gymryd rhan o'u buddion pensiwn tra'n dal i weithio am lai o amser, er enghraifft, trwy weithio'n rhan-amser. Hefyd, mae buddion pensiwn yn cael eu cyfrifo ar hyn o bryd ar sail naill ai cyflog yr aelod yn ystod y flwyddyn ddiwethaf neu gyfartaledd cyflogau'r tair blynedd olynol orau yn ystod y 10 mlynedd ddiwethaf, gan gynorthwyo'r rhai sy'n symud at ymddeol yn raddol trwy symud i gyflog is yn y blynyddoedd sy'n arwain at ymddeoliad. Gall yr hyblygrwydd hwn fod yn ddefnyddiol iawn i ysgolion, oherwydd gallant gadw athrawon profiadol a fyddai fel arall yn ymddeol yn llwyr efallai.

5. Mae mwy o wybodaeth fanwl ar gael ar [wefan Pensiwn Athrawon](#). Gellir gweld DVD, *What Do You Want to Do When You Leave School? A Guide to the Teachers' Pension Scheme*, yn ardal [Pensiynau](#) gwefan TeacherNet.

Anghydfod gyda Staff: Streiciau

6. Os yw undeb llafur sydd ag aelodau yn yr ysgol yn trefnu gweithredu diwydiannol i brotestio yn erbyn camau gweithredu corff llywodraethu, efallai y bydd iddo "imiwnedd" dan y gyfraith. Mae hyn yn golygu bod yr undeb yn gweithredu o fewn ei hawliau ac ni ellir ei erlyn yn y llysoedd am weithredu. Bydd imiwnedd yn dibynnu ar a yw'r undeb wedi dilyn y gweithdrefnau cywir, megis cynnal pleidlais gudd o'i aelodau, ac a yw'r anghydfod yn "anghydfod diwydiannol" o fewn ystyr deddfwriaeth cyflogaeth. Nid yw imiwnedd yn

berthnasol os nad yw'r camau gweithredu y mae'r staff yn protestio amdanynt yn effeithio arnynt hwy, er enghraifft, penderfyniadau gan gorff llywodraethu ysgol arall. Fodd bynnag, gall fod yn berthnasol i anghydfod gyda'r ALI.

Rhannau Perthnasol Eraill o Gyfraith Cyflogaeth

7. Mae yna ofynion eraill o dan gyfraith cyflogaeth sy'n effeithio ar gyrff llywodraethu yn ogystal â'r rhai sydd wedi'u crybwyll eisoes. Bydd yr ALI yn gallu cynnig cymorth ac arweiniad. Dyma'r prif ofynion i gyrff llywodraethu ac ALLau:

- rhaid iddynt roi gwybodaeth i gynrychiolwyr undebau llafur cydnabyddedig a fyddai'n eu cynorthwyo mewn trafodaethau gyda'r corff llywodraethu, lle byddai hyn yn dilyn arferion cysylltiadau diwydiannol da. Un enghraifft fyddai darparu gwybodaeth am y gyllideb;
- ni ddylent orfodi aelod staff i ymuno ag undeb neu gymryd rhan mewn gweithgareddau undeb, na'i atal rhag gwneud hynny;
- rhaid iddynt barchu hawliau staff i ddychwelyd i'r gwaith ar ôl gadael i gael plant;
- rhaid iddynt barchu hawliau cynrychiolwyr diogelwch a swyddogion undebau llafur annibynnol, cydnabyddedig i gael amser i ffwrdd o'r gwaith at ddibenion penodol; a
- rhaid iddynt barchu hawliau staff i gael amser i ffwrdd o'r gwaith, nid gyda thâl o reidrwydd, at ddibenion eraill, er enghraifft, i gyflawni dyletswyddau cyhoeddus (gan gynnwys dyletswyddau fel llywodraethwr ysgol a gynhelir neu Goleg Addysg Bellach) a chael gofal cyn-geni.

Y Gyfraith

Deddf Cyflog Cyfartal 1970
 Deddf Gwahaniaethu ar sail Rhyw 1975
 Deddf Cysylltiadau Hiliol 1976: Adran 4
 Deddf Tâl ac Amodau Athrawon Ysgol 1991: [Adrannau 1 a 2](#)
 Deddf Undeb Llafur a Chysylltiadau Llafur (Cydgrynhoi) 1992
 Deddf Diwygio Undebau Llafur a Hawliau Cyflogaeth 1993
 Deddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 1995
 Deddf Hawliau Cyflogaeth 1996
 Rheoliadau Athrawon (lawndal am Ddileu Swydd ac Ymddeoliad Cynnar) 1997: OS 1997/311
 Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998
 Deddf Amddiffyn Plant 1999
 Deddf Cysylltiadau Cyflogaeth 1999
 Rheoliadau Addysg (Cymwysterau Athrawon a Safonau Iechyd) (Cymru) 1999
 Deddf Addysg 2002
 Rheoliadau Gwerthuso Athrawon Ysgol (Cymru) 2002
 Rheoliadau Llywodraethu Ysgolion (Cylch Gwaith) (Diwygio) (Cymru) 2002
 Rheoliadau Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (Ffioedd) 2002
 Rheoliadau Addysg (Cyflenwi Gwybodaeth) (Cymru) 2003
 Rheoliadau Addysg (Gwahardd rhag Dysgu neu Weithio gyda Phlant) 2003: OS 2003/1184
 Rheoliadau Addysg (Gwahardd rhag Dysgu neu Weithio gyda phlant) 2004: OS 2004/1493
 Rheoliadau Addysg (Safonau Iechyd) (Cymru) 2004
 Rheoliadau Addysg (Gwaith Penodedig a Chofrestru) (Cymru) 2004
 Rheoliadau Addysg (Cymwysterau Athrawon Ysgol) (Cymru) 2004
 Rheoliadau Llywodraethu Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2005
 Rheoliadau Addysg (Trefniadau Ymsefydlu ar gyfer Athrawon Ysgol) (Cymru) 2005
 Deddf Diogelu Grwpiau Hyglwyf 2006
 Rheoliadau Staffio Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2006
 Rheoliadau Staffio Ysgolion a Gynhelir (Cymru) (Diwygio) 2009
 Rheoliadau Staffio Ysgolion a Gynhelir (Cymru) (Diwygio Rhif 2) (Cymru) 2009
 Cynllun Hyfforddi Athrawon ar Sail Cyflogaeth 2006 (2006 Rhif 8) Cynulliad Cenedlaethol Cymru
 Cynllun Hyfforddi Athrawon ar Sail Cyflogaeth (Diwygio) 2006 (2006 Rhif 74) Cynulliad Cenedlaethol Cymru
 Rheoliadau Staffio Ysgolion a Gynhelir (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2007
 Rheoliadau Addysg (Diwygiadau i Reoliadau ynghylch Cydnabod Cymwysterau Proffesiynol) (Cymru) 2007
 Rheoliadau Addysg (Cymwysterau Athrawon Ysgol) (Diwygio) (Cymru) 2008
 Dogfen Tâl ac Amodau Athrawon (yn cael ei ddiweddarau bob blwyddyn).
 Rheoliadau Gwerthuso Athrawon Ysgol (Diwygio) (Cymru) 2009
 Gorchymyn Deddf Prentisiaethau, Sgiliau, Plant a Dysgu 2009 (Cychwyn Rhif 1) (Cymru) 2009

Canllawiau

Dogfen Tâl ac Amodau Athrawon a'r Canllawiau ar Dâl ac Amodau Athrawon
(yn cael ei ddiweddarau bob blwyddyn)

[Dod yn Athro Cymwysedig \(Dogfen Wybodaeth AADGOS 021-06\)](#)

[Dod yn Athro Cymwysedig: Llawlyfr Canllawiau \(Cylchlythyr Rhif 41/2006 Cynulliad Cenedlaethol Cymru\).](#)

Adrodd ar Achosion o Gamymddwyn neu Anghymwysra Proffesiynol yn y Gwasanaeth Addysg (Cylchlythyr 33/2005 Cynulliad Cenedlaethol Cymru).

Amddiffyn Plant: Atal Pobl Anaddas rhag Gweithio gyda Phlant a Phobl Ifanc yn y Gwasanaeth Addysg. Cylchlythyr 34/2002 Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Sefydlu a Datblygiad Proffesiynol Cynnar ar gyfer Athrawon Newydd

Gymhwyso yng Nghymru Cylchlythyr Cyfarwyddyd 21/06 Llywodraeth y Cynulliad

Use of Supply Teachers (Cylchlythyr 7/96 yr Adran dros Addysg a Chyflogaeth 7/96)

What the Disability Discrimination Act (DDA) 1995 means for schools and LAs (Cylchlythyr 3/97 yr Adran dros Addysg a Chyflogaeth)

Early retirement arrangements for teachers (Cylchlythyr 15/97 yr Adran dros Addysg a Chyflogaeth)

Arweiniad ar Reoli Perfformiad, fel isod (Gellir cael copïau o'r dogfennau yn teachingenquiries@wales.gsi.gov.uk):

- Arweiniad 1 – Egwyddorion a Gweithdrefnau sy'n disgrifio'r system
- Arweiniad 2 – Polisiâu Rheoli Perfformiad Ysgol sy'n cynnwys polisi enghreifftiol
- Arweiniad 3 – Arweiniad i Lywodraethwyr
- Arweiniad 4 – Gosod Amcanion.

Canllawiau ar Reoliadau Addysg (Safonau Iechyd) (Cymru) 2004 (Dogfen Wybodaeth Rhif: 36-04 Adran Hyfforddiant ac Addysg y Cynulliad)

Codi Safonau a Mynd i'r Afael â Llwyth Gwaith; Cytundeb Cenedlaethol 2003 Safonau Cenedlaethol Diwygiedig i Benaethiaid yng Nghymru Cylchlythyr Cyfarwyddyd 14/06 Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Canllawiau ar y Cynllun Hyfforddi Athrawon ar sail Cyflogaeth 2006 (Cylchlythyr Rhif: 035/2008 Llywodraeth y Cynulliad).

Post-threshold standards assessment Teachernet yn www.teachernet.gov.uk

Code of practice on LEA/school relations (Saesneg yn Unig)

Comisiwn Cyfle Cyfartal a Chomisiwn Cydraddoldeb Hiliol: Codes of practice on eliminating discrimination and the promoting of equality of opportunity

Code of practice for the elimination of discrimination in the field of employment against disabled persons or persons who have a disability (Yr Adran dros Addysg a Chyflogaeth)

Guidance on matters to be taken into account in determining questions relating to the definition of disability (Yr Adran dros Addysg a Chyflogaeth a'r Adran Nawdd Cymdeithasol)

Gweithredu diwydiannol a'r gyfraith (Adran Busnes, Menter a Diwygio Rheoleiddio)

Codau Ymarfer ACAS:
Y Gwasanaeth Cynghori,
Cymodi a Chyflafareddu
(ACAS)

Ffôn: 08457 47 47 47
www.acas.org.uk

Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau
Dynol
3 More London
Riverside Tooley Street
Llundain, SE1 2RG

Ffôn: 020 3117 0235
www.equalityhumanrights.com